

**Cynnig i ad-drefnu ac ailfodelu'r
Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn
Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r
ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc**

Adroddiad Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246618

Acronymau

ADY - Anghenion Dysgu Ychwanegol

CADY – Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

ACEY - Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol

ALI - Awdurdod Lleol

UCD – Uned Cyfeirio Disgyblion

TAPPAS - Tîm sy'n ymwneud â disgyblion, rhieni ac ysgolion

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol.....	4
Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig.....	22
Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn	27
Ymgynghori â'r Disgyblion.....	41
Opsiynau Eraill.....	43

Atodiadau
Atodiad A – Amlinelliad o'r Model Pedwar Cam
Atodiad B – Model Pedwar Cam o'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad

Crynodeb Gweithredol

Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 11 Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig i:

- Ad-drefnu ac ailfodelu'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 11 Ionawr 2021, yr un pryd â chyhoeddi'r cynnig, a daeth i ben ar 16 Gorffennaf 2021. Daeth 53 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r digwyddiad ymgynghori â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law			
Arolwg ar-lein	E-bost	SNAP Cymru	Cyfanswm
50	1	2	53

Rhaid nodi bod pob un o'r 53 o sylwadau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

Digwyddiadau Ymgynghori

Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach, ac o ganlyniad cafodd sesiynau galw heibio rhithwir eu cynnal drwy Microsoft Teams.

Anffurfiol

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio anffurfiol rhithwir cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Ffurfiol

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ffurfiol rithwir ar **27 Ionawr 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Mynychodd 21 o randdeiliaid sesiwn galw heibio yr ymgynghoriad ffurfiol.

Yn ogystal, cynhaliodd Ysgol Rhyd-y-gors sesiwn Holi ac Ateb i ddisgyblion a rhieni mewn perthynas â'r cynnig.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u categorio i'r themâu canlynol:

Cefnogol

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 – Cefnogaeth i'r cynnig
- Thema 3 – Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion disgyblion
- Thema 4 – Diogelu cyflogaeth staff
- Thema 5 – Llesiant staff a disgyblion
- Thema 6 – Capasiti'r ddarpariaeth
- Thema 7 – Sefyllfa ariannol
- Thema 8 – Manteision y newid i'r disgyblion
- Thema 9 – Amgylchedd dysgu
- Thema 10 – Cefnogaeth i uwch-reolwyr
- Thema 11 – Darpariaeth y cwricwlwm
- Thema 12 – Lefelau staffio
- Thema 13 – Pontio
- Thema 14 – Ailintegreiddio i Addysg Brif Ffrwd

Ddim yn siŵr (ymatebwyr heb ymateb y naill ffordd na'r llall)

- Thema 1 – Model darpariaeth

Pryderon

- Thema 1 – Cyflogaeth staff
- Thema 2 – Effaith newid ar ddisgyblion
- Thema 3 – Dim rheswm
- Thema 4 – Arweinyddiaeth
- Thema 5 – Addasrwydd y ddarpariaeth UCD
- Thema 6 – Darpariaeth breswyl yn y dyfodol
- Thema 7 – Amseriad y gweithredu
- Thema 8 – Ailintegreiddio i Addysg Brif Ffrwd
- Thema 9 – Uwchsgilio staff
- Thema 10 – Effaith ar ysgolion prif ffrwd

Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	55%	Ddim yn gefnogol	43%	Ddim yn siŵr	2%
----------	-----	------------------	-----	--------------	----

Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 16 Gorffennaf 2021 cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law.

Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (a elwid gynt yn Fwrdd Gweithredol) a allai benderfynu cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch gydag addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol, neu ail-lunio'r cynnig yn sylweddol ac ailymgynghori.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, caiff hwn ei gyhoeddi maes o law.

Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
Sylwadau Cefnogol a Gafwyd				
1.	<p>Dim rheswm Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.</p>		16	30%
2.	<p>Cefnogaeth i'r cynnig Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors a sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion. Roedd manteision UCD yn cael eu cydnabod fel gwelliant yn y ddarpariaeth.</p>	<p>Mae'r cynnig yn rhan o'r adolygiad Gwasanaethau Ymddygiad ehangach a model Pedwar Cam Sir Gaerfyrddin. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod yr uned hon yn gweddu'n well yn strategol o fewn y strategaeth ehangach ac yn gwasanaethu'r dysgwyr a fydd yn mynychu'r cyfleuster yn well.</p>	3	6%
3.	<p>Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod byddai angen i'r cyfleuster gael ei staffio gan athrawon oedd â'r cymwysterau a'r profiad addas, gan deilwra'r ddarpariaeth i anghenion y disgyblion unigol. Cydnabuwyd y byddai'r model UCD yn caniatáu i ddisgyblion gael mynediad at ddarpariaeth prif ffrwd lle bo hynny'n briodol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol (ALI) yn cytuno y ceisir staff â chymwysterau a phrofiad addas. Ceisir darpar weithwyr sydd ag arbenigeddau perthnasol a'r gallu i ddatblygu'n broffesiynol, ac sy'n meddu ar yr awydd i weithio yn y maes gwasanaeth hwn. Mae'r Model Pedwar Cam yn ymdrechu i sicrhau bod gan gynifer o bobl ifanc â phosibl fynediad i addysg brif ffrwd. Yn dilyn cyfnod llwyddiannus o gymorth arbenigol yn yr UCD, gellir ystyried ailgynnwys disgyblion yn y brif ffrwd. Bydd anghenion disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth wedi cael eu nodi'n glir a darperir cynllunio ac ymyriadau</p>	2	4%

		cadarn i gefnogi pob dysgwr. Bydd yr holl ddysgwyr yn cael eu monitro'n aml a bydd eu cynnydd yn cael ei adolygu i nodi'r ddarpariaeth fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion.		
4.	Diogelu cyflogaeth staff Nododd ymatebwyr fod angen diogelu swyddi'r aelodau presennol o staff, er lles y disgyblion.	Gweler yr ateb i bwynt 3 uchod.	2	4%
5.	Llesiant staff a disgyblion Nododd ymatebwyr fod angen cefnogi llesiant staff a disgyblion yn ystod y broses newid er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.	Mae'r ALI yn cytuno â'r safbwynt hwn a bydd yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i hwyluso hyn.	2	4%
6.	Capasiti'r ddarpariaeth Gofynnodd ymatebwyr a fyddai'r cynnig yn effeithio ar nifer y disgyblion oedd yn cael mynediad i'r UCD.	Nid oes bwriad ar hyn o bryd i newid capasiti'r ddarpariaeth felly bydd nifer y disgyblion sy'n gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth yn aros yr un peth.	1	2%
7.	Y Sefyllfa Ariannol Gofynnodd ymatebwyr am wybodaeth am y gyllideb arfaethedig ac yn benodol: a oedd costau darparu dysgu mwy creadigol wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb arfaethedig; sut byddai costau parhaus y ddarpariaeth UCD yn cael eu talu, ac a fyddai gwariant fesul dysgwr yn aros yr un fath neu'n cael ei gynyddu.	Datblygwyd y dysgu creadigol sy'n digwydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion gan y staff a gyflogir yno ac sy'n gwirfoddoli i gael hyfforddiant i ddatblygu cwricwlwm creadigol sy'n gwrando ar lais disgyblion ac sy'n ceisio cael cwricwlwm mwy diddorol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae'r cwricwlwm a luniwyd yn y lleoliadau hyn wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio'r gyllideb sydd eisoes ar gael. Y rhesymeg dros gyllideb y staff yw y bydd y disgyblion yn cadw cymhareb disgybl i staff uchel gydag 1 athro a 2 aelod o staff cymorth ar gyfer pob dosbarth o chwe disgybl. Yn ogystal, bydd Rheolwr Canolfan a Chydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a byddant yn dod o	1	2%

		<p>fewn y Model Cymorth Pedwar Cam cyffredinol gyda thîm uwch-arweinwyr a fydd yn cynnwys Rheolwyr Cam 2, 3 a 4. Nid arbed arian yw bwriad yr ymgynghoriad ond darparu dull tecach o weithio gyda dysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (ACEY), gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal a'n bod yn canolbwyntio llawer mwy ar ymyrraeth gynnar.</p>		
8.	<p>Manteision newid i ddisgyblion Gofynnodd ymatebwyr beth yw manteision y newidiadau arfaethedig i ddisgyblion presennol Ysgol Rhyd-y-gors.</p>	<p>Mae manteision y Model Pedwar Cam i ddisgyblion ag ACEY, anghenion mwy cymhleth, a'r rheiny sydd angen lleoliadau addysgol hirdymor yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y strategaeth ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr ag ACEY, anghenion mwy cymhleth a hirdymor, yn cael ei harwain gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, ei rheoli'n gadarn, a'i gweithredu a'i gwerthuso gan Bwyllgor Rheoli medrus a rennir, sy'n deall anghenion amrywiol y dysgwyr hyn a sut i ddiwallu'r anghenion hyn. • Bydd gan ddisgyblion fynediad at ddarpariaeth effeithiol sy'n cael ei harwain gan anghenion ac sy'n deg o ran cymorth cyfannol, llesiant a phrofiadau dysgu gydag arfer effeithiol yn cael ei rannu ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion a meysydd perthnasol y model Pedwar Cam. • Yn gynyddol, bydd anghenion disgyblion yn cael eu diwallu yn eu hysgolion prif ffrwd oherwydd y cymorth effeithiol a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a ddarperir drwy'r model Pedwar Cam. O ganlyniad, bydd anghenion dysgu a llesiant disgyblion yn cael eu diwallu drwy fodel hybrid, gan gynnwys mynediad i'r ysgol brif ffrwd berthnasol neu brofiadau dysgu 	1	2%

		<p>partneriaeth neu ddarpariaeth o fewn strwythur yr Uned Cyfeirio Disgyblion; bydd cymarebau'n amrywio yn dibynnu ar anghenion disgyblion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell dilyniant yn ardal Caerfyrddin i ddisgyblion sy'n symud o ddarpariaeth UCD oed cynradd i uwchradd; systemau, prosesau a staffio cyfarwydd ochr yn ochr â disgwyliadau uchel. • Mae darparu ar gyfer y dysgwyr hyn drwy un system UCD yn darparu: <ul style="list-style-type: none"> ➤ Eglurder o ran gweledigaeth a disgwyliad. ➤ Cydweithio a dysgu ymhlith staff ac arweinwyr, rhannu arferion effeithiol a gwerthuso'n adeiladol mewn modd sy'n hunanwella. ➤ Llywodraethu colegol drwy bwyllgor rheoli, gan adeiladu arbenigedd mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion ACEY, cymhleth neu hirdymor. ➤ Cwricwlwm arloesol sy'n cael ei arwain gan anghenion, ac sy'n rhannu arbenigedd ac adnoddau staffio ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a rennir y bydd hyn yn eu galluogi. ➤ Hyblygrwydd o ran defnyddio staff i ddiwallu anghenion disgyblion ac i arwain meysydd strategol mewn modd dosbarthedig. ➤ Arbedion maint, gan ddarparu profiadau dysgu a rennir i ddisgyblion. ➤ Cymuned ddysgu fwy i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a dysgu mewn 		
--	--	---	--	--

		<p>amgylchedd diogel, ysbrydoledig ond empathetig.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Darpariaeth ar gyfer dysgwyr mewn amgylcheddau a lywir gan Drawma lle mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i sicrhau bod anghenion llesiant, cymdeithasol, galwedigaethol ac academaidd disgyblion yn sail i'r holl brofiadau dysgu. ➤ Cynhwysir darpariaeth breswyl yn y Model Pedwar Cam; bydd yr ethos, y gofal a'r llesiant yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth ddysgu yn ystod y dydd gan ddarparu amgylchedd sefydlog a chyfarwydd i bawb. <p>I grynhoi, y sail resymegol dros droi'r ysgol yn UCD yw darparu llwybr dysgu cynhwysol ac uchelgeisiol i ddisgyblion, nad yw'n eu cyfyngu drwy aros mewn lleoliad bach (38 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd) o CA2-CA4 gyda chwricwlwm cyfyng a diffyg dyhead i ddychwelyd (hyd yn oed yn rhannol) i ddarpariaethau prif ffrwd.</p> <p>Mae gan Rhyd-y-gors ddisgyblion talentog mewn chwaraeon, technoleg ddigidol, cerddoriaeth a'r celfyddydau mynegiannol sy'n haeddu cael mynediad at lwybrau cynnydd yn y pynciau hyn. Maent yn haeddu cael eu haddysgu gan athrawon pwnc arbenigol mewn llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sy'n feysydd anodd recriwtio iddynt pan ddisgwylir i staff gyflwyno'r cwricwlwm cyfannol ar draws grwpiau oedran ac anghenion dysgu.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Mae'r lleoliad wedi'i ynysu ac yn rhy fach i gynnig yr ehangder sydd ei angen ar y disgyblion.</p> <p>Bydd gweithio mewn modd cydweithredol ar draws y lleoliadau Arbenigol yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran galluogi staff i weithio ar draws y gwahanol safleoedd, gan fod yn fwy cyfartal o ran cynnig y cwricwlwm.</p> <p>Mae'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu mwy o ddatblygiad proffesiynol i'n staff ar draws lleoliadau gan y bydd y strwythur arweinyddiaeth cadarn yn rhoi mwy o gyfle i gael mynediad at brofiadau arwain hefyd.</p>		
9.	<p>Amgylchedd dysgu</p> <p>Nododd ymatebwyr nad yw'r safle a'r adeiladau presennol yn addas i'r diben a bod angen eu datblygu. Gofynnodd ymatebwyr a fyddai unrhyw welliannau/addasiadau yn cael eu gwneud i'r amgylchedd dysgu er mwyn hwyluso'r defnydd newydd o hyn a pha gyllid oedd ar gael i gefnogi hyn.</p>	<p>Sut bydd yr ysgol / UCD yn cael ei gwella?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd darpariaeth yn cael ei rhannu â'r UCD presennol sydd ar y safle ar hyn o bryd ar gyfer y disgyblion oed cynradd, gan wella'r amgylchedd dysgu i bawb. • Ar hyn o bryd mae'r adran yn cynnal adolygiad o'i Rhaglen Moderneiddio Addysg (MYA) sy'n cynnwys holl ysgolion y sir gan gynnwys Ysgol Rhyd-y-gors. • Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored wedi'i ail-gynllunio i gyd-fynd â'r cynnig dysgu. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ➤ Ardaloedd dan do i chwarae a dysgu. ➤ Datblygu darpariaeth a pharthau garddio i gadw anifeiliaid bach. • Mae ardaloedd mewnol ac allanol wedi'u clirio a'u hail-bwrpasu i gynnwys ardaloedd meithrin a mannau dysgu pwrpasol, er enghraifft, mae 	1	2%

		<p>cyfleusterau trin gwallt a thechnoleg cerddoriaeth yno bellach.</p> <p>Yn benodol mewn perthynas ag Argymhelliad 5 o adroddiad ESTYN</p> <p>A5 Gwella'r amgylchedd gwaith</p> <p>O ganlyniad i hyfforddiant perthnasol a chynghor parhaus, mae'r amgylchedd dysgu ar draws yr ysgol yn gwella. Ar draws cyfnod allweddol 2 mae ffocws ar ddarpariaeth feithringar, er enghraifft arferion clir ar gyfer y diwrnod ysgol, amrywiaeth o gyfleoedd amlsynhwyrdd, a'r potensial i ddefnyddio mannau awyr agored gwell fel mannau dysgu gwerthfawr.</p> <p>Mae arweinwyr yn datblygu cysylltiadau gwerth chweil â darparwyr eraill i wella'r amgylchedd, er enghraifft, staff o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.</p> <p><u>Y Camau Nesaf:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio'n bwrpasol ar gyfer cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored. • Parhau i fyfyrion ar gynnydd amgylchedd meithringar a'i effaith ar ddisgyblion. 		
10.	Cefnogaeth i uwch-reolwyr Gofynnodd ymatebwyr sut fyddai'r Awdurdod Lleol yn cefnogi'r Pennaeth a'r Tîm Uwch-arweinwyr	Ers mis Medi 2014 mae cadw arweinyddiaeth a llywodraethu cyson wedi bod yn her fawr i Ysgol Rhyd-y-gors. Mae pum pennaeth wedi cael eu penodi, un yn	1	2%

	<p>yn ystod cyfnod o ansicrwydd a newid.</p>	<p>barhaol a phedwar dros dro. Adeg yr arolygiad diwethaf, cafodd y pennaeth dros dro ei benodi ym mis Medi 2018, ond fe ymddiswyddodd o'r ysgol yn Nhymor y Gwanwyn 2021. Mae gweddill y tîm arweinyddiaeth, fel yr oedd bryd hynny, wedi ymddiswyddo ers hynny i fynd i swyddi newydd.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r ysgol mae'r Awdurdod Lleol wedi secondio arweinwyr i greu tîm arweinyddiaeth dros dro ar gyfer yr ysgol.</p> <p>Manteision trefniadau arweinyddiaeth presennol yr ALL sydd ar waith yn Rhyd-y-gors, sy'n cyd-fynd â'r cynnig Model Pedwar Cam yn y dyfodol, a'r effaith gadarnhaol hyd yn hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell arweinyddiaeth gan Bennaeth Dros Dro yr ALL gyda mynediad at staffio a phrosesau ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae arweinyddiaeth yn rhan o'r grŵp ymgynghorol gweinidogol, gan ddefnyddio a llywio datblygiadau cyfredol ar gyfer plant sy'n agored i niwed. • Cymorth arweinyddiaeth uniongyrchol gan Reolwr Addysg Heblaw mewn Ysgol yr Awdurdod Lleol, gan arwain at well diwylliant a disgwyliadau o ran ymddygiad cadarnhaol ac ymgysylltu mewn dysgu. • Mae rhannu arbenigedd ar draws y lleoliadau UCD a gwella'r ddarpariaeth ddysgu, er enghraifft, cydweithio ar draws y Tîm Uwch-arweinwyr, wedi arwain at gynnig galwedigaethol a rennir i ddisgyblion cyfnod allweddol 4. 		
--	--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae cymorth amlasiantaethol mwy effeithiol bellach yn cael ei gomisiynu gan y tîm arweinyddiaeth; mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r cynnydd. • Gwerthuso mwy cadarn o'r ddarpariaeth bresennol a'r cynllunio gwelliant dilynol. • Parhad o ran arweinyddiaeth ar draws y ddarpariaeth gynradd yn cael ei ddarparu gan yr arweinydd UCD cynradd. 		
11.	<p>Darpariaeth cwricwlwm Gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch sut byddai'r cwricwlwm a ddarperir yn well na'r un presennol.</p>	<p>Nid oedd arlwy'r cwricwlwm yn ymgysylltu'n effeithiol â disgyblion. Pan ofynnwyd am lais y disgybl ynglŷn â'u cwricwlwm, teimlai'r disgyblion nad oedd arlwy'r cwricwlwm yn ddiddorol.</p> <p>Yn unol â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'n hathrawon fod yn arbenigol ac yn hyblyg fel y gallwn gynnig i ddisgyblion Oedolion, Amgylcheddau a Phrofiadau sy'n Galluogi (dogfen Agor Llwybrau Llywodraeth Cymru, yr ymgynghorir yn ei chylch ar hyn o bryd).</p> <p>Fel y nodwyd eisoes, mae gan Ryd-y-gors ddisgyblion dawnus mewn chwaraeon, technoleg ddigidol, cerddoriaeth a'r celfyddydau mynegiannol sy'n haeddu mynediad at lwybrau dilyniant yn y pynciau hyn. Maent yn haeddu cael eu haddysgu gan athrawon pwnc arbenigol mewn llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sy'n feysydd anodd recriwtio iddynt pan ddisgwylir i staff gyflwyno'r cwricwlwm cyfannol ar draws grwpiau oedran ac anghenion dysgu.</p>	1	2%

		<p>Mae'r lleoliad wedi'i ynysu ac yn rhy fach i gynnig yr ehangder sydd ei angen ar y disgyblion.</p> <p>Bydd gweithio mewn modd cydweithredol ar draws y lleoliadau Arbenigol yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran galluogi staff i weithio ar draws y gwahanol safleoedd, gan fod yn fwy cyfartal o ran cynnig y cwricwlwm.</p>		
12.	<p>Lefelau Staffio</p> <p>Gofynnodd ymatebwyr a fyddai'r lefelau staffio yn aros yr un peth neu'n cael eu cynyddu.</p>	<p>Fel y nodwyd yn yr adran gyllid, ein bwriad yw cadw cymhareb staff i ddisgyblion uchel gydag un athro a dau gynorthwydd cymorth ar gyfer pob dosbarth o chwe disgybl.</p> <p>Mae gan bob disgybl Gynllun Datblygu Unigol a bydd hwn yn adleisio ei angen penodol ac yn nodi'r angen am gymhareb staff uwch â sail resymegol a'r hyn fydd y gymhareb uwch yn ei chyflawni.</p>	1	2%
13.	<p>Pontio</p> <p>Gofynnodd ymatebwyr pa gamau byddai'r Awdurdod Lleol yn eu cymryd i sicrhau pontio didrafferth i ddisgyblion o'r ysgol i'r ddarpariaeth UCD.</p>	<p>Wrth i'r Pennaeth Dros Dro ac aelodau eraill o'r tîm arweinyddiaeth ymddiswyddo, ac wrth i opsiynau recriwtio a secondio fethu darparu'r gweithwyr proffesiynol angenrheidiol, trefnodd yr Awdurdod Lleol dîm arweinyddiaeth dros dro yn yr ysgol.</p> <p>Os mai canlyniad yr ymgynghoriad yw peidio â chynnal yr ysgol a sefydlu UCD, bydd o leiaf un tymor a fydd yn caniatáu i strwythur staffio newydd gael ei gyflwyno. Y gobaith yw y bydd staff o fewn y strwythur sy'n gyfarwydd â'r disgyblion yn rhan o'r strwythur hwn.</p> <p>Gan y bydd y lleoliad yn aros yr un peth ac rydym yn gobeithio y bydd nifer o'r staff yr un peth, ni fydd gan</p>	1	2%

		<p>ddisgyblion lawer iawn o newid i ymdopi ag ef. Mae disgyblion eisoes wedi'u cyflwyno i'r arweinyddiaeth newydd ac mae hyn wedi rhoi bod i ganlyniadau cadarnhaol. Bydd unrhyw aelod newydd o staff yn cael ei groesawu ac yn dechrau cwrdd â disgyblion yn raddol a meithrin perthnasoedd.</p> <p>Yn ogystal, rydym yn gweithredu prosesau, yn unol â diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), i newid datganiadau yn Gynlluniau Datblygu Unigol. Yn y cyfarfodydd adolygu hyn byddwn yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i wrando ar lais disgyblion a rhiant/gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, a byddwn yn cyd-greu cynlluniau i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn cael ei gydnabod a'i ddathlu a bod unrhyw anghenion cyfredol, a sut y gellir eu cefnogi yn glir ac yn dryloyw, fel bod y dysgwyr, y teulu a'r gweithwyr proffesiynol yn cydweithio ac yn teimlo'n rhan o greu'r cynllun ac yn teimlo bod ganddynt rywfaint o reolaeth o ran sut, beth, a ble maent yn ymgymryd â'u dysgu a'u cymorth.</p>		
14.	<p>Ailintegreiddio i Addysg Brif Ffrwd</p> <p>Gofynnodd ymatebwyr a fyddai'r cynnig yn cael ei ddefnyddio i ail-addysgu ac ailfodelu ymddygiad, gyda golwg ar annog disgyblion i fynd yn ôl i addysg brif ffrwd gyda chymorth.</p>	<p>Yn y gorffennol, mae darpariaethau UCD wedi cael eu sefydlu i fod yn rhai tymor byr a chynigir lleoliad dau dymor gyda'r disgwyliad y dylai disgyblion ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd.</p> <p>Y broses bresennol yw monitro, asesu a gwerthuso a oes digon o gynnydd wedi'i wneud o fewn dau dymor i'r disgybl ddychwelyd i'r brif ffrwd. Os nad yw'r disgybl wedi gwneud digon o gynnydd a/neu gellir cynnal asesiad yn ffurfiol i nodi a oes angen lleoliad hirdymor ar y disgybl sef Rhyd-y-gors.</p>	1	2%

		<p>Efallai ei fod yn ymddangos fod yr UCD heb fod yn llwyddiannus, pan mewn gwirionedd, dim ond angen cyfnod hirach oedd ar y dysgwr i weithio ar ymyriadau, strategaethau a chymorth.</p> <p>Ni fwriedir i'r disgyblion sy'n mynychu Rhyd-y-gors ar hyn o bryd ddychwelyd i ysgol brif ffrwd. Yn hytrach, ystyrir bod angen lleoliad hirdymor arnynt mewn lleoliadau arbenigol.</p> <p>Datblygwyd y Model Pedwar Cam i greu mwy o gyfle i gefnogi disgyblion yn eu lleoliad prif ffrwd ac mae'n ceisio nodi anghenion yn gynharach fel y gellir cynnig cymorth cyn gynted â phosibl.</p> <p>Mae'r Model Pedwar Cam yn cael ei ddatblygu fel ei fod yn un sy'n cael ei arwain gan anghenion a bydd yn cynnwys cymorth amlasiantaethol lle rydym yn gweithio tuag at adnabod yn gynnar, uwchsgilio ysgolion prif ffrwd, rhoi cymorth i deuluoedd, a chynnig pecynnau cymorth gwirioneddol bwrpasol sy'n amlwg yn gweithio, gyda'r person ifanc yn y canol yn teimlo'n rhan o'r broses a'r penderfyniadau a wneir am ei gymorth a'i addysg.</p>		
--	--	---	--	--

Ddim yn siŵr (ymatebwyr heb ymateb y naill ffordd na'r llall)

1.	Model y Ddarpariaeth Gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch sut beth fyddai'r model newydd o ddarpariaeth o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol.	Rydym yn ceisio sicrhau bod disgyblion sy'n mynychu darpariaeth arbenigol (ysgol neu UCD) yn cael tegwch o ran ymyriadau a'r hyn mae'r cwricwlwm yn ei gynnig, ble bynnag y bo eu darpariaeth. Byddai model y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cynnwys darpariaeth sy'n gweithio gydag ethos adferol a staff	1	2%
-----------	---	---	----------	-----------

		<p>hyfforddedig wedi'u llywio gan drawma. Hoffem gynnig model adfer wedi trawma yn y lleoliad. Rydym hefyd yn gweithio i gynyddu'r achrediad sydd ar gael a chynyddu'r cymwysterau sydd ar gael sy'n cynnig rhaglenni addysg mwy galwedigaethol a phwrpasol. Rydym hefyd yn bwriadu creu mwy o gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ac ymyriadau llesiant wedi'u targedu, sy'n cael eu tracio, eu monitro a'u gwerthuso.</p> <p>Gallwn gynyddu'r achrediad a'r cwricwlwm a gynigir drwy gael staff i gydweithio ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cam 3 y Model 4 Cam) i gynnig mwy o arbenigeddau pwnc a gwell cynnig o gyrsiau galwedigaethol a chyrsiau achrededig. Mae cydweithio yn hytrach na gweithio mewn lleoliadau unigol yn caniatáu rhannu llawer mwy o arbenigedd.</p>		
--	--	--	--	--

Pryderon a Godwyd

1.	Cyflogaeth staff Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch y cyfleoedd cyflogaeth i staff yn yr UCD yn y dyfodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, a gofyn a fyddai staff yn gorfod gwneud cais am swyddi yn yr UCD.	Gweler yr ateb i bwynt 3 uchod.	5	9%
2.	Effaith newid ar ddisgyblion Tynnodd ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch effaith y newid yn	Nid yw'r Awdurdod Lleol am golli profiad ac arbenigedd, a byddai dal angen cymhareb staff i ddisgyblion uchel ar y strwythur yn y dyfodol. Y gobaith yw y byddai nifer sylweddol o'r staff sy'n gweithio yn yr ysgol ar hyn, ac sy'n	4	8%

	y ddarpariaeth a staffio ar ddisgyblion.	<p>meddu ar y sgiliau, y profiad, yr arbenigedd, a'r awydd i weithio gyda'n dysgwyr, yn dymuno gweithio yn y lleoliad pan fyddai'n UCD.</p> <p>Yn ogystal, nid yw'r safle'n newid.</p> <p>O ran newid darpariaeth, bydd disgyblion yn parhau i gael eu cofrestru fel disgyblion hirdymor a byddai eu darpariaeth ond yn newid wedi i'w hanghenion gael eu tracio, asesu ac adolygu'n llawn. Bydd yr holl adolygiadau a chynnydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn felly bydd llais y disgybl, yn ogystal â rhieni a gweithwyr proffesiynol, yn rhan o unrhyw benderfyniad.</p>		
3.	<p>Dim rheswm</p> <p>Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu pryderon.</p>		3	6%
4.	<p>Arweinyddiaeth</p> <p>Gofynnodd ymatebwyr ai ymateb i arweinyddiaeth yr ysgol oedd y cynnig.</p>	Mae'r ailstrwythuro'n rhan o'r adolygiad ehangach o'r Gwasanaethau Ymddygiad ac yn ailstrwythuriad strategol.	2	4%
5.	<p>Addasrwydd darpariaeth UCD</p> <p>Roedd ymatebwyr yn cwestiynu addasrwydd darpariaeth UCD yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny oedd wedi mynychu UCD yn y gorffennol.</p>	<p>Yn y gorffennol, mae darpariaethau UCD wedi cael eu sefydlu i fod yn rhai tymor byr a chynigir lleoliad dau dymor gyda'r disgwyliad y dylai disgyblion ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd.</p> <p>Y broses bresennol yw monitro, asesu a gwerthuso a oes digon o gynnydd wedi'i wneud o fewn dau dymor i'r disgybl ddychwelyd i'r brif ffrwd. Os nad yw'r disgybl wedi gwneud digon o gynnydd a/neu gellir cynnal asesiad yn ffurfiol i nodi a oes angen lleoliad hirdymor ar y disgybl sef Rhyd-y-gors.</p>	2	4%

		<p>Efallai ei fod yn ymddangos fod yr UCD heb fod yn llwyddiannus, pan mewn gwirionedd, dim ond angen cyfnod hirach oedd ar y dysgwr i weithio ar ymyriadau, strategaethau a chymorth.</p> <p>Ni fwriedir i'r disgyblion sy'n mynychu Rhyd-y-gors ar hyn o bryd ddychwelyd i ysgol brif ffrwd. Yn hytrach, ystyrir bod angen lleoliad hirdymor arnynt mewn lleoliadau arbenigol.</p> <p>Datblygwyd y Model Pedwar Cam i greu mwy o gyfle i gefnogi disgyblion yn eu lleoliad prif ffrwd ac mae'n ceisio nodi anghenion yn gynharach fel y gellir cynnig cymorth cyn gynted â phosibl.</p> <p>Mae'r Model Pedwar Cam yn cael ei ddatblygu fel ei fod yn un sy'n cael ei arwain gan anghenion a bydd yn cynnwys cymorth amlasiantaethol lle rydym yn gweithio tuag at adnabod yn gynnar, uwchsgilio ysgolion prif ffrwd, rhoi cymorth i deuluoedd, a chynnig pecynnau cymorth gwirioneddol bwrpasol sy'n amlwg yn gweithio, gyda'r person ifanc yn y canol yn teimlo'n rhan o'r broses a'r penderfyniadau a wneir am ei gymorth a'i addysg.</p>		
6.	<p>Darpariaeth breswyl yn y dyfodol Nododd ymatebwyr bryderon am ddyfodol y ddarpariaeth breswyl.</p>	<p>Mae darpariaeth breswyl yn cael ei hystyried fel rhan o gam 4 o fodel yr ALI.</p> <p>Os caiff y cynnig i beidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu canolfan Gofal Seibiant/Cartref Plant ar safle hen Uned Breswyl/Ysgol Rhyd-y-gors.</p>	2	4%

		Bydd pob un o gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors sydd ag elfen o addysg breswyl yn rhan o'u Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn parhau i dderbyn hyn ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors. I gyd-fynd â'r cynigion a'u datblygu ymhellach, mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n datblygu cais am gyllid Cronfa Gofal Integredig i ddatblygu cartref plant newydd sy'n addas i'r 21ain ganrif. Gobeithio bydd hyn yn gwella'r model cartref plant a'r ddarpariaeth sydd ar gael ac yn diwallu anghenion plant yn lleol ac yn rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae'r cynllun yng nghampau datblygu'r dyluniad.		
7.	Amseru'r gweithredu Cwestiynwyd amseriad y cynnig gan ymatebwyr. Roedd ymatebwyr yn pryderu am effaith gweithredu'r cynnig cyn bod camau eraill o'r model ymddygiad wedi'u hymsefydlu. Yn ogystal, teimlai ymatebwyr fod y cynnig wedi'i ruthro ac maent yn credu bod hyn yn awgrymu nad yw'r cynnig wedi'i ystyried yn llawn.	<p>Paratowyd yr amserlen ar gyfer y cynnig yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, lluniwyd y Model Pedwar Cam mewn ymateb i adolygiad o Wasanaethau Cymorth Ymddygiad yr Awdurdod Lleol yn eu cyfanrwydd.</p> <p>Mae'r model wedi bod yn cael ei lunio, gan fuddsoddi i ddechrau mewn uwchsgilio staff drwy roi hyfforddiant, sef cam cyntaf y model. Mae'r ail Gam yn rhoi mwy o gyfle i gael cymorth ac ymyriadau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd ac rydym yn datblygu model TAPPAS (Tîmau sy'n ymwneud â disgyblion, rhieni ac ysgolion) i greu system o nodi anghenion hyfforddant i gefnogi ein pobl ifanc yn eu lleoliad prif ffrwd neu ddarparu pecynnau cymorth cadarn cyn gynted â phosibl yn eu lleoliad prif ffrwd. Cam 3 yw datblygu tîm arbenigol mawr ar gyfer y bobl ifanc hynny nad prif ffrwd yw'r amgylchedd cywir ar eu cyfer ar hyn o bryd. Dyma lle mae'r Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r ysgolion arbennig yn dod at ei gilydd fel y gallwn ni i gyd gydweithio fel tîm arbenigol mawr, gan ddarparu'r arbenigedd mwyaf i'r dysgwyr ar yr adeg briodol. Cam 4</p>	2	4%

		yw'r pecynnau cofleidiol a'r gwaith teuluol sydd hefyd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (elfen breswyl). Ymhen amser bydd Cam 4 hefyd yn cynnwys cyfleoedd ÔI-16 yn unol â diwygio ADY.		
8.	<p>Ailintegreiddio i Addysg Brif Ffrwd</p> <p>Roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai'r cynnig yn golygu canolbwyntio ar ail-integreiddio disgyblion i leoliad prif ffrwd a'r effaith niweidiol fyddai hyn yn ei chael ar ddisgyblion.</p>	<p>Yn y gorffennol, mae darpariaethau UCD wedi cael eu sefydlu i fod yn rhai tymor byr a chynigir lleoliad dau dymor gyda'r disgwyliad y dylai disgyblion ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd.</p> <p>Y broses bresennol yw monitro, asesu a gwerthuso a oes digon o gynnydd wedi'i wneud o fewn dau dymor i'r disgybl ddychwelyd i'r brif ffrwd. Os nad yw'r disgybl wedi gwneud digon o gynnydd a/neu gellir cynnal asesiad yn ffurfiol i nodi a oes angen lleoliad hirdymor ar y disgybl sef Rhyd-y-gors.</p> <p>Efallai ei fod yn ymddangos fod yr UCD heb fod yn llwyddiannus, pan mewn gwirionedd, dim ond angen cyfnod hirach oedd ar y dysgwr i weithio ar ymyriadau, strategaethau a chymorth.</p> <p>Ni fwriedir i'r disgyblion sy'n mynychu Rhyd-y-gors ar hyn o bryd ddychwelyd i ysgol brif ffrwd. Yn hytrach, ystyrir bod angen lleoliad hirdymor arnynt mewn lleoliadau arbenigol.</p> <p>Datblygwyd y Model Pedwar Cam i greu mwy o gyfle i gefnogi disgyblion yn eu lleoliad prif ffrwd ac mae'n ceisio nodi anghenion yn gynharach fel y gellir cynnig cymorth cyn gynted â phosibl.</p>	2	4%

		Mae'r Model Pedwar Cam yn cael ei ddatblygu fel ei fod yn un sy'n cael ei arwain gan anghenion a bydd yn cynnwys cymorth amlasiantaethol lle rydym yn gweithio tuag at adnabod yn gynnar, uwchsgilio ysgolion prif ffrwd, rhoi cymorth i deuluoedd, a chynnig pecynnau cymorth gwirioneddol bwrpasol sy'n amlwg yn gweithio, gyda'r person ifanc yn y canol yn teimlo'n rhan o'r broses a'r penderfyniadau a wneir am ei gymorth a'i addysg.		
9.	Uwchsgilio staff Nododd ymatebwyr a ellid darparu hyfforddiant priodol i uwchsgilio staff er mwyn diwallu anghenion y ddarpariaeth arfaethedig.	Mae'r model pedwar cam yn seiliedig ar fodel cryf o staff yn parhau â Datblygiad Proffesiynol a chefnogir uwchsgilio.	1	2%
10.	Effaith ar ysgolion prif ffrwd Holodd ymatebwyr a fyddai gweithredu'r cynnig yn creu heriau i ysgolion Prif Ffrwd.	Fel rhan o'r model Pedwar Cam, darperir mwy o gymorth i ysgolion prif ffrwd gan y tîm cymunedol cymorth ymddygiad a mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar a gweithio'n adferol i gefnogi disgyblion ysgol a'u teuluoedd (cyfeiriwch at Gynllun Peilot TAPPAS). Yn fwyaf diweddar, fel tystiolaeth o'n hymrwymiad i gefnogi ysgolion, bydd y tîm yn cynyddu o 6 i 14 aelod.	1	2%

Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

1. Bydd holl gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau i gael eu haddysg ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, yn hytrach na chael darpariaeth mewn ysgol arbennig, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Er y dylid ystyried y cynnig yn ei gyfanrwydd, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â Phwynt 1 yn unig. **Bydd pwyntiau 2 a 3 a nodir isod yn cael eu gweithredu drwy weithdrefnau ar wahân.**

2. Os caiff yr uchod (Pwynt 1) ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors ar 1 Ionawr 2022 .
3. Yn ogystal, os caiff Pwynt 1 ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Cartref Plant/Canolfan Seibiant ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors/Uned Breswyl ar 1 Ionawr 2022.

Bydd holl gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors sydd ag elfen o addysg breswyl yn rhan o'u Datganiad AAA yn parhau i gael hyn ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors.

Crynodeb/Casgliad

Mae Ysgol Rhyd-y-gors yn ysgol arbennig breswyl a gynhelir, a adeiladwyd yn bwrpasol. Adeg yr arolygiad craidd diwethaf yn Nhachwedd 2019, roedd 37 o ddisgyblion rhwng 7 ac 16 oed ar y gofrestr. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU), yn bennaf ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn cael ei Hadolygu gan Estyn, ar ôl barnu bod y pum maes arolygu yn ddigonol ac angen gwelliant. Mae gan yr ysgol 5 argymhelliad ar gyfer gwella.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2014. Ers hynny, mae pum pennaeth wedi'u penodi, un yn barhaol a 4 dros dro. Penodwyd y pennaeth dros dro presennol ym Medi 2018.

Mae niferoedd y disgyblion wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf. Bu gostyngiad yn nifer y disgyblion preswyl yn ystod yr un cyfnod. Ar y cyfan, nid oes digon o fanylion yn y ddogfen ymgynghori am y cynnig i gau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors. Nid yw'r sail resymegol a roddwyd gan yr awdurdod lleol i gau'r ysgol arbennig a'i sefydlu'n uned cyfeirio disgyblion yn glir. Ni ddarperir digon o wybodaeth am fuddion y cynnig hwn i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac yn enwedig i'r disgyblion hynny ag anghenion sy'n fwy cymhleth ac y mae arnynt angen lleoliadau addysgol tymor hir.

Disgrifiad a manteision

Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod lleol amrywiaeth o leoliadau sy'n cefnogi disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, sef cyfanswm o bedair darpariaeth, sy'n cynnwys Ysgol Rhyd-y-gors a thair uned cyfeirio disgyblion (UCD). Gweledigaeth yr awdurdod yw dwyn y darpariaethau ynghyd o dan un Tîm Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad a Lles Arbenigol, o dan fodel pedwar cam. Awgrymir mwy o fynediad at y Tîm Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad fel rhan o'r model ymyrraeth gynnar i gefnogi clystyrau o ysgolion. Nid yw pedwar cam y model sydd wedi'i amlinellu yn yr ymgynghoriad yn cynnwys digon o fanylion, yn enwedig am gyfnodau 3 a 4.

Tudalen 9 paragraff 4, mae'r cynnig yn nodi tystiolaeth hanesyddol sy'n awgrymu bod disgyblion yn aros yn Ysgol Rhyd-y-gors yn y tymor hir heb unrhyw brofiad pellach o fod mewn ysgol brif ffrwd. Nid yw'n glir pam nad yw trafodaethau am y lleoliad addysgol presennol, gan gynnwys yr opsiwn i fynd i ddarpariaeth brif ffrwd, lle y bo'n briodol, yn digwydd yn yr adolygiad blynyddol o ddatganiadau disgyblion. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i adolygu a monitro disgyblion â datganiadau, sy'n cynnwys eu lleoliad addysgol. Byddai manylion ychwanegol yn ddefnyddiol i ddeall sail resymegol yr awdurdod lleol ar gyfer y sylw hwn. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddatgomisiynu'r ysgol i hybu cyfleoedd i ddisgyblion allu mynd i leoliadau prif ffrwd, lle y bo'n briodol.

Mae'r cynnig ar dudalen 10, paragraff 3 yn datgan 'er mwyn cysondeb, mynediad i gymorth arbenigol iawn, mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod o opsiynau achredu a'r cynnig o gynlluniau addysg unigol a phwrpasol a gynigir yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion presennol drwy'r dull 3 Haen, mae'n ofynnol cau Ysgol Rhyd-y-gors fel ysgol arbennig a'i sefydlu fel Uned Cyfeirio Disgyblion'. Nid yw'n glir pam na ellir cynnig y cymorth arbenigol i Ysgol Rhyd-y-gors ond byddai ar gael pe bai'n UCD. Mae'r cynnig fel pe bai'n awgrymu nad yw Ysgol Rhyd-y-gors, ar hyn o bryd, yn gallu cynnig cwricwlwm eang a chytbwys gydag amrywiaeth o achrediadau neu gynlluniau addysgu pwrpasol, unigol. Yn ogystal, mae'r cynnig yn sôn am fodel pedwar cam yn yr ymgynghoriad a dull 3 haen. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o eglurder ynghylch y rhain a sut maent yn eu hategu ei gilydd.

Ar dudalen 10, paragraff 3 mae'r cynnig yn trafod 'bydd gwella model yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu'n fwy priodol ar gyfer diwallu anghenion cymdeithas...'. Nid oes rhagor o fanylion am beth yw'r gwelliant na sut byddai hyn yn wahanol i'r cynnig presennol yn Ysgol Rhyd-y-gors.

Mae'n ymddangos bod y cynnig yn awgrymu y byddai'r disgyblion â'r anghenion mwyaf cymhleth a heriol o ran anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu haddysg mewn UCD. Nid yw'n glir a fyddai'n ofynnol o hyd i ddisgyblion gael datganiad i fanteisio ar ddarpariaeth o'r fath ac ar ba haen neu gam byddai hyn yn briodol.

Tudalen 11, paragraff 1, mae'r cynnig yn cyflwyno cynnig o ran cais am gyllid y Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu cartref newydd i blant, yn addas i'r 21ain ganrif. Nododd yr arolygiad craidd fod angen gwella'r amgylchedd dysgu yn yr ysgol. Nid yw'r cynnig yn rhoi sylw am sut bydd safle'r ysgol yn cael ei wella. Os oes angen gwella'r safle fel ysgol, mae'n ymddangos yn rhesymegol y byddai'r un peth yn berthnasol pe bai UCD yn cael ei sefydlu.

Mae'r cynnig yn cyfeirio'n addas at ei ymrwymiad i wasanaeth dwyieithog. Codwyd pryderon am gynnydd disgyblion Cymraeg mamiaith yn Ysgol Rhyd-y-gors yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Ar hyn o bryd, mae gan y cynnig wybodaeth gyfyngedig am y deilliannau neu'r buddion bwriadedig i ddisgyblion o ganlyniad i symud o ysgol arbennig i fanteisio ar ddarpariaeth UCD. Nid yw'r sail resymegol ar gyfer cau'r ysgol yn glir. Mae UCD yn ddarpariaeth tymor byr yn bennaf, gyda'r disgwyl y dylai pob disgybl ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Efallai na fydd y dull hwn yn addas i bob disgybl ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol gan fod eu hanghenion mor gymhleth fel nad allant weithredu yn amgylchedd y brif ffrwd. Yn y rhestr o ddewisiadau a ystyriwyd, nid yw'r ALI wedi cynnig bod Ysgol Rhyd-y-gors yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn yr ALI.

Ar dudalen 13, pwynt bwled 1 o dan anfanteision, mae'r cynnig yn nodi, 'ar y dechrau bydd ysgolion yn nerfus na fydd darpariaeth ysgol ar gael yn y tymor hir ar gyfer achosion mwy cymhleth'. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddogfen ymgynghori'n rhoi digon o wybodaeth am yr hyn fydd ar gael i'r disgyblion hyn.

Tudalen 13- Effaith ar AAA

Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai ychwanegu UCD at safle presennol Rhyd-y-gors yn darparu ar gyfer yr amrywiaeth eang o ddisgyblion o bob oedran ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Dyma'r achos ar hyn o bryd, gydag Ysgol Rhyd-y-gors yn rhannu ei safle gydag un o'r tair UCD sydd eisoes wedi'u sefydlu. Felly, nid yw'n glir sut byddai cau'r ysgol arbennig ac agor UCD ychwanegol yn cynnig darpariaeth gyffredinol wahanol a gwell i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ar draws yr awdurdod lleol.

Tudalen 14- Trefniadau derbyn

Mae'r cynnig yn datgan 'mae rhai disgyblion sydd â heriau sylweddol a pharhaus yn ymwneud â'u Hanawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ("ACEY") ac sydd angen darpariaeth ddydd arbenigol yn y tymor hir neu ddarpariaeth breswyl ACEY yn Ysgol Rhyd-y-gors'. Nid yw'n glir ymhle a sut caiff anghenion y disgyblion hyn eu bodloni o dan y cynnig presennol i gau'r ysgol.

Dywed y cynnig 'Bydd cau Ysgol Rhyd-y-gors a chreu UCD ar gyfer anghenion ystod amrywiol o ddisgyblion o bob oed a champau datblygu ar un safle yn sicrhau dull cyson o ran y strategaethau addysgu perthnasol ar draws yr holl gyfnodau allweddol, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen'. Mae tystiolaeth brin yn yr ymgynghoriad presennol i ategu'r datganiad hwn. Nid yw'r cynnig yn darparu digon o dystiolaeth i egluro pam nad yw'r ysgol arbennig yn cael ei hystyried yn rhan o gontinwmm ymddygiadol y ddarpariaeth i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Tudalen 16- Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu opsiwn o ddewis, mae'r cynnig yn cynnwys amrywiaeth o ddewisiadau eraill. Rhoddir sylwadau ychwanegol gan Estyn mewn **print bras**.

Dewis 1	Y sefyllfa bresennol	Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad o ran darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin – nid yw'n glir o'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad beth yw'r 'amrywiad' o ran darpariaeth ar hyn o bryd.
Dewis 2	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd bresennol Sir Gaerfyrddin	Dim digon o le yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Rhyd-y-gors – Beth am y disgyblion cynradd yn yr ysgol? Beth yw'r amcan o nifer y disgyblion yn yr awdurdod y mae angen y ddarpariaeth hon arnynt ac a fyddai angen sefydlu pedwaredd UCD o ganlyniad?
Dewis 3	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd	Bydd angen cymorth arbenigol ar ysgolion nad oes modd ei ddarparu mewn ysgolion prif ffrwd.-

		Ar sail datganiadau disgyblion, nid yw'n ymddangos bod hwn yn ddewis ymarferol.
Dewis 4 (Ffebrir)	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion mewn Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ar safle Ysgol Rhyd-y-gors.	Mae'n creu cysondeb o ran ansawdd a safon y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n sicrhau bod cyn lleied o darfu
Dewis 5	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a pheidio â darparu darpariaeth amgen	Nid yw'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Materion a godwyd gan Estyn ac ymatebion yr ALI

1. *Ar y cyfan, nid oes digon o fanylion yn y ddogfen ymgynghori am y cynnig i gau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors. Nid yw'r sail resymegol a roddwyd gan yr awdurdod lleol i gau'r ysgol arbennig a'i sefydlu'n uned cyfeirio disgyblion yn glir. Ni ddarperir digon o wybodaeth am fuddion y cynnig hwn i ddisgyblion ag ACEY, ac yn enwedig i'r disgyblion hynny ag anghenion sy'n fwy cymhleth ac y mae arnynt angen lleoliadau addysgol tymor hir.*

Ymateb yr ALI

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol adolygiad o ymddygiad yn 2018 a arweiniodd at wneud nifer o argymhellion i drawsnewid y ddarpariaeth oedd ar gael ac i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Mewn ymateb i'r adolygiad hwn, cyflogwyd rheolwr trawsnewid ymddygiad a llesiant i ymgymryd â'r dasg o drawsnewid y gwasanaethau.

Datblygwyd Model Pedwar Cam mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid cynradd ac uwchradd, Rheolwyr Gwasanaethau a Phenaethiaid Gwasanaeth ac mae camau 1,2,3 yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus ar hyn o bryd ar draws yr awdurdod.

Nod y Model Pedwar Cam, sy'n cynnwys y bwriad i beidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors, yw sicrhau darpariaeth deg o ansawdd da i bob dysgwr ar draws yr holl ysgolion a lleoliadau yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y model yn sicrhau mwy o gynhwysiant yn y lleoliadau prif ffrwd drwy roi hyfforddiant a chymorth priodol i'r staff; mae nodi ac ymyrryd yn gynnar yn sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo i aros yn y brif ffrwd lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, neu fod cymysgedd o ddarpariaeth prif ffrwd ac UCD yn diwallu eu hanghenion dysgu yn fwy effeithiol. Gall y disgyblion hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth gael mynediad i'w darpariaeth drwy'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn unig, os mai dyma beth sydd ei angen.

Gweler crynodeb o'r amlinelliad o'r Model Pedwar Cam sydd ynghlwm ar ffurf atodiad A.

Mae manteision y Model Pedwar Cam i ddisgyblion ag ACEY, anghenion mwy cymhleth, a'r rheiny sydd angen lleoliadau addysgol hirdymor yn cynnwys:

- Bydd y strategaeth ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr ag ACEY, anghenion mwy cymhleth a hirdymor, yn cael ei harwain gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, ei rheoli'n gadarn, a'i gweithredu a'i gwerthuso gan Bwyllgor Rheoli medrus a rennir, sy'n deall anghenion amrywiol y dysgwyr hyn a sut i ddiwallu'r anghenion hyn.
- Bydd gan ddisgyblion fynediad at ddarpariaeth effeithiol sy'n cael ei harwain gan anghenion ac sy'n deg o ran cymorth cyfannol, llesiant a phrofiadau dysgu gydag arfer effeithiol yn cael ei rannu ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion a meysydd perthnasol y model Pedwar Cam.

- Yn gynyddol, bydd anghenion disgyblion yn cael eu diwallu yn eu hysgolion prif ffrwd oherwydd y cymorth effeithiol a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a ddarperir drwy'r model Pedwar Cam. O ganlyniad, bydd anghenion dysgu a llesiant disgyblion yn cael eu diwallu drwy fodel hybrid, gan gynnwys mynediad i'r ysgol brif ffrwd berthnasol neu brofiadau dysgu partneriaeth neu ddarpariaeth o fewn strwythur yr Uned Cyfeirio Disgyblion; bydd cymarebau'n amrywio yn dibynnu ar anghenion disgyblion.
- Gwell dilyniant yn ardal Caerfyrddin i ddisgyblion sy'n symud o ddarpariaeth UCD oed cynradd i uwchradd; systemau, prosesau a staffio cyfarwydd ochr yn ochr â disgwyliadau uchel.
- Mae darparu ar gyfer y dysgwyr hyn drwy un system UCD yn darparu:
 - Eglurder o ran gweledigaeth a disgwyliad.
 - Cydweithio a dysgu ymhlith staff ac arweinwyr, rhannu arferion effeithiol a gwerthuso'n adeiladol mewn modd sy'n hunanwella.
 - Llywodraethu colegol drwy bwyllgor rheoli, gan adeiladu arbenigedd mewn perthynas â'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion ACEY, cymhleth neu hirdymor.
 - Cwricwlwm arloesol sy'n cael ei arwain gan anghenion, ac sy'n rhannu arbenigedd ac adnoddau staffio ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a rennir y bydd hyn yn eu galluogi.
 - Hyblygrwydd o ran defnyddio staff i ddiwallu anghenion disgyblion ac i arwain meysydd strategol mewn modd dosbarthedig.
 - Arbedion maint, gan ddarparu profiadau dysgu a rennir i ddisgyblion.
 - Cymuned ddysgu fwy i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a dysgu mewn amgylchedd diogel, ysbrydoledig ond empathetig.
 - Darpariaeth ar gyfer dysgwyr mewn amgylcheddau a lywir gan Drawma lle mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i sicrhau bod anghenion llesiant, cymdeithasol, galwedigaethol ac academaidd disgyblion yn sail i'r holl brofiadau dysgu.
 - Cynhwysir darpariaeth breswyl yn y Model Pedwar Cam; bydd yr ethos, y gofal a'r llesiant yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth ddysgu yn ystod y dydd gan ddarparu amgylchedd sefydlog a chyfarwydd i bawb.

Heriau cadw Ysgol bresennol Rhyd-y-gors yn cynnwys:

- Ers mis Medi 2014 mae cadw arweinyddiaeth a llywodraethu cyson wedi bod yn her fawr i Ysgol Rhyd-y-gors. Mae pum pennaeth wedi cael eu penodi, un yn barhaol a phedwar dros dro. Adeg yr arolygiad diwethaf, cafodd y pennaeth dros dro ei benodi ym mis Medi 2018, ond fe ymddiswyddodd o'r ysgol yn Nhymor y Gwanwyn 2021. Mae gweddill y tîm arweinyddiaeth, fel yr oedd bryd hynny, wedi ymddiswyddo ers hynny i fynd i swyddi newydd.
- Mae recriwtio athrawon parhaol profiadol sydd â'r cymwysterau addas i sefydlogi'r strwythur hefyd wedi bod yn heriol. Mae newid staff yn aml,

absenoldeb staff uchel, a lefelau uchel o staff dros dro neu staff cyflenwi yn effeithio'n uniongyrchol ar gynnydd a chanlyniadau'r dysgwyr.

- Diffyg hyblygrwydd o ran adleoli staff o dimau'r UCD i'r ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion.
- Mae recriwtio llywodraethwyr sydd â'r sgiliau priodol i reoli ysgol arbennig yn hynod o heriol.
- Nid yw plant sy'n cael eu lleoli yn Ysgol Rhyd-y-gors yn dychwelyd i'r brif ffrwd; nid yw staff, na phlant a phobl ifanc yn credu bod hyn yn opsiwn.
- Mae'r diffyg cysondeb ac arbenigedd ymhlith staff yn arwain at gynnydd amrywiol yn achos disgyblion.
- Dros amser nid yw'r disgwyliadau o ran arweinyddiaeth yn ddigon uchelgeisiol i'r dysgwyr, er bod yr Awdurdod Lleol yn herio'n gadarn.
- Er bod yr Awdurdod Lleol yn darparu lefelau uchel o gymorth i'r ysgol gan yr Ymgynghorwyr Cymorth Addysg, yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol, a pheynnau hyfforddi ar gyfer addysgu a dysgu i wella llwyddiant academaidd a hyfforddiant ar gyfer cefnogi llesiant emosiynol, mae effaith goramser yn parhau i amrywio oherwydd trosiant uchel y staff.
- Staff yn adrodd am bryderon llesiant: nid ydynt yn cydweithredu fel arfer ag ysgolion prif ffrwd na lleoliadau'r Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- Gall canfyddiad rhieni a disgyblion o'r ysgol fod yn wael.

Manteision trefniadau arweinyddiaeth presennol yr Awdurdod Lleol sydd ar waith yn Rhyd-y-gors, sy'n cyd-fynd â'r cynnig Model Pedwar Cam yn y dyfodol, a'r effaith gadarnhaol hyd yn hyn:

- Gwell arweinyddiaeth gan Bennaeth Dros Dro yr Awdurdod Lleol gyda mynediad at staffio a phrosesau ar draws yr Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae arweinyddiaeth yn rhan o'r grŵp ymgynghorol gweinidogol, gan ddefnyddio a llywio datblygiadau cyfredol ar gyfer plant sy'n agored i niwed.
- Cymorth arweinyddiaeth uniongyrchol gan Reolwr Addysg Heblaw mewn Ysgol yr Awdurdod Lleol, gan arwain at well diwylliant a disgwyliadau o ran ymddygiad cadarnhaol ac ymgysylltu mewn dysgu.
- Mae rhannu arbenigedd ar draws y lleoliadau UCD a gwella'r ddarpariaeth ddysgu, er enghraifft, cydweithio ar draws y Tîm Uwch-arweinwyr, wedi arwain at gynnig galwedigaethol a rennir i ddisgyblion cyfnod allweddol 4.
- Mae cymorth amlasiantaethol mwy effeithiol bellach yn cael ei gomisiynu gan y tîm arweinyddiaeth; mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r cynnydd.
- Gwerthuso mwy cadarn o'r ddarpariaeth bresennol a'r cynllunio gwelliant dilynol.
- Parhad o ran arweinyddiaeth ar draws y ddarpariaeth gynradd yn cael ei ddarparu gan yr arweinydd UCD cynradd.

I grynhoi, y sail resymegol dros droi'r ysgol yn UCD yw darparu llwybr dysgu cynhwysol ac uchelgeisiol i ddisgyblion, nad yw'n eu cyfyngu drwy aros mewn lleoliad bach (38

disgybl) o CA2-CA4 gyda chwricwlwm cyfyng a diffyg dyhead i ddychwelyd (hyd yn oed yn rhannol) i ddarpariaethau prif ffrwd.

Mae gan Ryd-y-gors ddisgyblion talentog mewn chwaraeon, technoleg ddigidol, cerddoriaeth a'r celfyddydau mynegiannol sy'n haeddu cael mynediad at lwybrau cynnydd yn y pynciau hyn. Maent yn haeddu cael eu haddysgu gan athrawon pwnc arbenigol mewn llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth a Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sy'n feysydd anodd recriwtio iddynt pan ddisgwylir i staff gyflwyno'r cwricwlwm cyfannol ar draws grwpiau oedran ac anghenion dysgu.

Mae'r lleoliad wedi'i ynysu ac yn rhy fach i gynnig yr ehangder sydd ei angen ar y disgyblion.

Bydd gweithio mewn modd cydweithredol ar draws y lleoliadau Arbenigol yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran galluogi staff i weithio ar draws y gwahanol safleoedd, gan fod yn fwy cyfartal o ran cynnig y cwricwlwm.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu mwy o ddatblygiad proffesiynol i'n staff ar draws lleoliadau gan y bydd y strwythur arweinyddiaeth cadarn yn rhoi mwy o gyfle i gael mynediad at brofiadau arwain hefyd.

- 2. Nid yw pedwar cam y model sydd wedi'i amlinellu yn yr ymgynghoriad yn cynnwys digon o fanylion, yn enwedig am gyfnodau 3 a 4.*

Ymateb yr ALI

Gweler y Model Pedwar Cam o'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad sydd ynghlwm ar ffurf atodiad B a'r manylion a gynhwysir uchod.

- 3. Tudalen 9 paragraff 4, mae'r cynnig yn nodi tystiolaeth hanesyddol sy'n awgrymu bod disgyblion yn aros yn Ysgol Rhyd-y-gors yn y tymor hir heb unrhyw brofiad pellach o fod mewn ysgol brif ffrwd. Nid yw'n glir pam nad yw trafodaethau am y lleoliad addysgol presennol, gan gynnwys yr opsiwn i fynd i ddarpariaeth brif ffrwd, lle y bo'n briodol, yn digwydd yn yr adolygiad blynyddol o ddatganiadau disgyblion. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i adolygu a monitro disgyblion â datganiadau, sy'n cynnwys eu lleoliad addysgol. Byddai manylion ychwanegol yn ddefnyddiol i ddeall sail resymegol yr awdurdod lleol ar gyfer y sylw hwn. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddatgomisiynu'r ysgol i hybu cyfleoedd i ddisgyblion allu mynd i leoliadau prif ffrwd, lle y bo'n briodol.*

Ymateb yr ALI

Mae system i sicrhau bod adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal. Mae gan yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr Awdurdod Lleol gofnod canolog ac mae system gadarn ar waith i sicrhau bod adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal. Oherwydd diffyg cysondeb mewn arweinyddiaeth, diffyg tystiolaeth o ran monitro a gwerthuso cynnydd mewn modd pendant, diffyg tystiolaeth ar gyfer rhaglenni cymorth i'r disgyblion anoddaf eu cyrraedd, ymddengys mai prin yw'r dystiolaeth o

gynnydd a fyddai'n awgrymu, yn ystod adolygiad blynyddol, y byddai digon o dystiolaeth o newid i weithwyr proffesiynol argymell y gallai plentyn gymryd rhan yn gadarnhaol mewn addysg brif ffrwd.

Gan gyfeirio at y wybodaeth a rennir uchod, bydd y newidiadau arfaethedig yn lleihau'r pryderon a nodir yma.

4. Mae'r cynnig ar dudalen 10, paragraff 3 yn datgan 'er mwyn cysondeb, mynediad i gymorth arbenigol iawn, mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod o opsiynau achredu a'r cynnig o gynlluniau addysg unigol a phwrpasol a gynigir yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion presennol drwy'r dull 3 Haen, mae'n ofynnol cau Ysgol Rhyd-y-gors fel ysgol arbennig a'i sefydlu fel Uned Cyfeirio Disgyblion'. Nid yw'n glir pam na ellir cynnig y cymorth arbenigol i Ysgol Rhyd-y-gors ond byddai ar gael pe bai'n UCD. Mae'r cynnig fel pe bai'n awgrymu nad yw Ysgol Rhyd-y-gors, ar hyn o bryd, yn gallu cynnig cwricwlwm eang a chytbwys gydag amrywiaeth o achrediadau neu gynlluniau addysgu pwrpasol, unigol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn wir yn seiliedig ar ein harolygiad diwethaf. Yn ogystal, mae'r cynnig yn sôn am fodel pedwar cam yn yr ymgynghoriad a dull 3 haen. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o eglurder ynghylch y rhain a sut maent yn ategu ei gilydd.

Ymateb yr ALI

Sut mae'r dull 3 Haen yn rhan o'r model Pedwar Cam?

Mae Cam 3 o'r Model 4 Cam yn disgrifio lleoliadau arbenigol sef Canolfannau Addysgu a Dysgu'r Awdurdod Lleol (Unedau Cyfeirio Disgyblion). Mae tair haen o gymorth gan y system bresennol yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion ACEY uwchradd, a grynhoir yn syml fel a ganlyn:

Unwaith yn yr UCD:

Haen 1 – mae disgyblion yn mynychu'r Ganolfan Addysgu a Dysgu ACEY ond hefyd yn cael mynediad at ryw fath o ddarpariaeth brif ffrwd. Gallent fod yn mynychu eu hysgol brif ffrwd; gallent fod yn trosglwyddo'n ôl i'w hysgol brif ffrwd, neu gallent fod yn mynychu lleoliad coleg.

Haen 2 - mae disgyblion yn mynychu'r ganolfan addysgu a dysgu ar y safle ar amserlen amser llawn.

Haen 3 – disgyblion yw'r rhain sydd ag anghenion cymhleth uchel o ran iechyd meddwl a rheoli eu hemosiynau, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael pecyn cymorth pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion penodol a nodwyd. Yn aml, mae angen arfer a lywir gan drawma ar y disgyblion hyn a mynediad at becynnau cymorth pwrpasol gan ddefnyddio pecynnau achredu eraill, dysgu yn yr awyr agored, cymorth galwedigaethol a llesiant pwrpasol i feithrin perthynas gadarnhaol â staff, datblygu ymdeimlad o ddiogelwch gyda staff a chynyddu eu pecyn cymorth yn raddol i gael lefelau uwch o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth a'u cynllun addysg.

Cwricwlwm Ysgol Rhyd-y-gors, mynediad at achrediad ac effaith y Cynlluniau addysg pwrpasol:

- Sylwer isod ddiweddariad mis Mehefin 2021 i Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y camau nesaf sydd eu hangen.
- Cyfeiriad at gynllunio gyda lleoliadau eraill - cyfeiriad yw hwn at weithio gydag Unedau Cyfeirio Disgyblion yn unol â'r Model Pedwar Cam.

- Mae Ysgol Rhyd-y-gors yn derbyn cymorth sylweddol gan swyddogion yr Awdurdod Lleol, i sicrhau bod datblygiad proffesiynol y staff yn arwain at well darpariaeth i ddisgyblion.

A1 Codi safonau a gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu cynnig galwedigaethol uchelgeisiol ar draws cyfnodau allweddol 3 a 4. O ganlyniad, mae cynnig mwy cynhwysfawr sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ymgysylltu. Mae archwiliad o sgiliau staff yn cefnogi defnyddio staff yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod y model galwedigaethol hwn yn cael ei ddarparu.

Ar draws cyfnod allweddol 2 mae ffocws clir ar yr amgylchedd sy'n datblygu fel adnodd i ddatblygu ymgysylltiad a sgiliau.

Mae staff yn cael cefnogaeth gan swyddogion o sawl adran i asesu a chynllunio'n gywir ar gyfer gwella llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, prin yw'r gwerthuso sydd wedi bod o ran effaith hyn ar gynnydd disgyblion hyd yn hyn.

Y Camau Nesaf:

Parhau i gynyddu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion a phobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau ar draws y cwricwlwm sy'n ehangu.

A2 Gwella ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu

Mae mwy o gysondeb o ran y broses ar draws yr ysgol. Nod model ymwybodol o drawma yw cefnogi arfer cyson, gan ddarparu'r rhaglenni hyfforddiant pwrpasol ar gyfer yr holl staff. Mae ystod o swyddogion yn yr Awdurdod Lleol sy'n cefnogi datblygiad dulliau gweithredu cyson. O ganlyniad, mae'r hyfforddwyr dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar gynnig galwedigaethol CA3 a CA4, sy'n arwain at fwy o ymgysylltu â phobl ifanc.

Ar draws cyfnod allweddol 2, mae Proffiliau Un Dudalen yn dangos llais y disgybl a llais cyfoedion, sy'n cefnogi amgylchedd meithringar. Mae proffiliau synhwyaidd wedi'u cwblhau ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3, gyda chynlluniau i broffilio disgyblion cynradd. Mae hyfforddiant Prosesu Synhwyaidd wedi'i drefnu ar gyfer yr holl staff yn seiliedig ar ganlyniadau'r proffiliau hyn a fydd yn cefnogi ymhellach ddarpariaeth alluogi sy'n effeithio ar lesiant ac ymddygiad.

Fodd bynnag, oherwydd trefniadau staffio anghyson, mae amrywiad sylweddol o hyd ar draws y lleoliad sy'n cyfyngu ar lwyddiant.

Y Camau Nesaf:

- Datblygu ymhellach effaith hyfforddiant fel ei fod yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar ddisgyblion a phobl ifanc.

- Datblygu'r defnydd o offer Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gyda rhieni fel bod y wybodaeth a gesglir yn llywio cynllunio.
- Ymgorffori'r polisi Perthnasoedd gyda'r holl randdeiliaid

A3 Gwella ansawdd yr addysgu ac effeithiolrwydd yr asesu

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd pellach i bob athro ddatblygu ei arbenigedd. Dull mwy strategol yw sicrhau bod yr holl staff yn gyfrifol am weithredu'r newid yn eu hystafelloedd dosbarth.

Mae athrawon yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o swyddogion Awdurdodau Lleol ac maent hefyd yn cysylltu ag ysgolion prif ffrwd a lleoliadau arbenigol eraill. Y ffocws ar gyfer datblygu yw gwneud y mwyaf o botensial amgylcheddau sy'n galluogi, cyfathrebu fel ymyriad a dulliau cywir o arsylwi, asesu a chynllunio. Mae hyn yn datblygu ymhellach y cymorth gan gyfoedion sydd wedi cefnogi'r dulliau a rennir o gynllunio thematig a chyfraniad llais y disgybl.

Fodd bynnag, mae'r strategaeth i gefnogi addysgu, dysgu ac asesu yn dal i fod yn ei champau cynnar.

Y Camau Nesaf:

- Trwy ddulliau arsylwi, asesu a chynllunio gwell, datblygu profiadau'r cwricwlwm drwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Strategaethau personol sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu ac yn gwneud cynnydd effeithiol o'u man cychwyn.
- Cynllunio ar gyfer darpariaeth dan do ac awyr agored briodol iawn sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion a phobl ifanc.

A4 Cryfhau cynllunio gwelliant

O ganlyniad i wella prosesau hunanwerthuso, mae prosesau iechyd a diogelwch yn gyson. Mae gwelliant yn y ddarpariaeth alwedigaethol ar draws cyfnodau allweddol 3 a 4 sy'n effeithio ar lefelau ymgysylltu. Mae'r amgylchedd dysgu yn fwy ysbrydoledig, sy'n rhoi mwy o gyfle i fod yn annibynnol ac i gyfrannu.

Mae archwiliad o sgiliau staff wedi arwain at ddefnyddio'r staff yn fwy priodol a lle mae angen datblygu staff, mae hyfforddiant, ymyrraeth a chymorth cadarn wedi'u rhoi ar waith.

Bydd yr ysgol yn awr yn cael cefnogaeth i flaenoriaethu hunanwerthuso effeithlon ac effeithiol fel ei bod yn parhau i edrych ar yr angen ehangach am welliant, gan gynnwys yr effaith amlwg ar ddisgyblion a phobl ifanc.

Y Camau Nesaf:

- Tîm yr Uwch-arweinwyr i weithio gyda Chynorthwyrwyr Cymorth Addysg i werthuso Cynllun Gweithredu Ôl-arolygu yr ysgol yn erbyn cynllun gweithredu'r ALL, er mwyn sicrhau bod cymorth yn parhau i fod yn berthnasol.
- Tîm yr Uwch-arweinwyr i gynllunio cylch monitro sy'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid.

A5 Gwella'r amgylchedd gwaith

O ganlyniad i hyfforddiant perthnasol a chynghor parhaus, mae'r amgylchedd dysgu ar draws yr ysgol yn gwella. Ar draws cyfnod allweddol 2 mae ffocws ar ddarpariaeth feithringar, er enghraifft arferion clir ar gyfer y diwrnod ysgol, amrywiaeth o gyfleoedd amlsynhwyraidd, a'r potensial i ddefnyddio manau awyr agored gwell fel manau dysgu gwerthfawr.

Mae arweinwyr yn datblygu cysylltiadau gwerth chweil â darparwyr eraill i wella'r amgylchedd, er enghraifft, staff o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Y Camau Nesaf:

- Cynllunio'n bwrpasol ar gyfer cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored.
- Parhau i fyfrio ar gynnydd amgylchedd meithringar a'i effaith ar ddisgyblion.

5. **Ar dudalen 10, paragraff 3** mae'r cynnig yn trafod 'bydd gwella model yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu'n fwy priodol ar gyfer diwallu anghenion cymdeithas...'. Nid oes rhagor o fanylion am beth yw'r gwelliant na sut byddai hyn yn wahanol i'r cynnig presennol yn Ysgol Rhyd-y-gors. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn awgrymu y byddai'r disgyblion â'r anghenion ACEY mwyaf cymhleth a heriol yn cael eu haddysg mewn UCD. Nid yw'n glir a fyddai'n ofynnol o hyd i ddisgyblion gael datganiad i fanteisio ar ddarpariaeth o'r fath ac ar ba haen neu gam byddai hyn yn briodol.

Ymateb yr ALL

Sut bydd y Model Pedwar Cam yn cael ei wella / yn wahanol i'r cynnig presennol sy'n cael ei ddarparu yn Rhyd-y-gors?

Mae'r profiadau dysgu yn Rhyd-y-gors wedi bod yn gyfyngedig iawn; nid yw'r disgywiliadau wedi bod yn ddigon uchel yn gyson ac mae heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff yn amharu ar gynnydd, er gwaethaf datblygiad proffesiynol gan yr ALL.

Cyn arweinyddiaeth pennaeth yr ALL, nid oedd y cynnig dysgu yn diwallu anghenion pob dysgwr yn effeithiol.

Bydd y Pedwar Cam yn cynnig mwy o gydweithio ymhlith staff a disgyblion, arweinyddiaeth gadarn gan bwyllgor rheoli dan arweiniad yr ALL ac yn y blaen, fel y nodwyd uchod.

A fydd angen datganiad ar bob disgybl o hyd?

Mae Cynllun Datblygu Unigol gan bob disgybl sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion yn yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Mae hyn wedi bod yn ofynnol gan y

Panel Cynhwysiant lle caiff lleoliadau eu hystyried a'u cytuno wrth baratoi ar gyfer Diwygio ADY. Bydd gan ddisgyblion sydd angen lle mewn lleoliad ACEY arbenigol Gynllun Datblygu Unigol i sicrhau bod eu hanghenion wedi'u nodi a'u cefnogi.

6. **Tudalen 11, paragraff 1**, mae'r cynnig yn cyflwyno cynllun ar gyfer cais am gyllid o'r Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu cartref plant newydd, addas i'r 21ain ganrif. Nododd yr arolygiad craidd yr angen i wella'r amgylchedd dysgu yn yr ysgol. Nid yw'r cynnig yn gwneud sylwadau ar sut bydd safle'r ysgol yn cael ei wella. Os oes angen gwella'r safle fel ysgol, mae'n ymddangos yn rhesymegol y byddai'r un peth yn berthnasol pe bai UCD yn cael ei sefydlu.

Ymateb yr ALI

Sut bydd yr ysgol / UCD yn cael ei gwella?

- Bydd darpariaeth yn cael ei rhannu â'r UCD presennol sydd ar y safle ar hyn o bryd ar gyfer y disgyblion oed cynradd, gan wella'r amgylchedd dysgu i bawb.
- Ar hyn o bryd mae'r adran yn cynnal adolygiad o'i Rhaglen Moderneiddio Addysg (MYA) sy'n cynnwys holl ysgolion y sir gan gynnwys Ysgol Rhyd-y-gors.
- Mae'r amgylchedd dysgu awyr agored wedi'i ail-gynllunio i gyd-fynd â'r cynnig dysgu. Mae hyn yn cynnwys:
 - Ardaloedd dan do i chwarae a dysgu.
 - Datblygu darpariaeth a pharthau garddio i gadw anifeiliaid bach.
- Mae ardaloedd mewnol ac allanol wedi'u clirio a'u hail-bwrpasu i gynnwys ardaloedd meithrin a mannau dysgu pwrpasol, er enghraifft, mae cyfleusterau trin gwallt a thechnoleg cerddoriaeth yno bellach.

7. **Agweddau addysgol y cynnig**

Ar hyn o bryd, prin yw'r wybodaeth sydd ynghlwm wrth y cynnig am y deilliannau neu'r manteision a fwriedir i ddisgyblion wrth symud o ysgol arbennig i ddarpariaeth Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r rhesymeg dros ddigomisiynu'r ysgol yn aneglur. Darpariaeth tymor byr yn bennaf yw'r Unedau Cyfeirio Disgyblion, lle mae disgwyl i'r holl ddisgyblion ail-integreiddio i'r brif ffrwd. Efallai na fydd y dull hwn yn addas i'r holl ddisgyblion sydd ag ACEY gan fod eu hanghenion mor gymhleth ni allant weithredu yn yr amgylchedd prif ffrwd. Yn y rhestr o opsiynau sydd dan ystyriaeth, nid yw'r ALI wedi cynnig Ysgol Rhyd-y-gors fel y ganolfan ragoriaeth ar gyfer ACEY yn yr ALI.

Ymateb yr ALI

Sylwer uchod fanteision y Model Pedwar Cam arfaethedig a fydd yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at ddarpariaeth ddysgu o ansawdd da drwy ddull prif ffrwd / UCD hybrid, fel sy'n angenrheidiol ar gamau amrywiol eu taith addysgol.

Mae'r model yn sicrhau hyblygrwydd a bod dyheadau uchel gan bob dysgwr.

Mae ein strwythur UCD presennol yn parhau i hyrwyddo'r dyhead i ail-integreiddio i'r brif ffrwd ac mae tystiolaeth o ailintegreiddio llwyddiannus a hyblygrwydd o ran dull gweithredu.

O'r anawsterau a amlinellwyd, nid yw creu'r Ysgol Rhyd-y-gors bresennol yn ganolfan ragoriaeth yn cyd-fynd â'n Model Pedwar Cam arfaethedig. Dyhead ein cynllun datblygu yw sicrhau bod ein holl ddarpariaethau Cam 3 yn ganolfannau rhagoriaeth.

8. **Ar dudalen 13, pwynt bwled 1 o dan anfanteision, mae'r cynnig yn nodi 'i ddechrau bydd ysgolion yn nerfus na fydd darpariaeth ysgol hirdymor ar gael mewn achosion mwy cymhleth'. Ar hyn o bryd nid yw'r papur ymgynghori yn rhoi digon o wybodaeth am yr hyn fydd ar gael i'r disgyblion hyn.**

Ymateb yr ALI

Gweledigaeth y model Pedwar Cam yw darparu gwasanaethau ACEY a arweinir gan anghenion lle bo cynhwysiant, dulliau adferol, ac ymyrraeth gynnar yn allweddol i lwyddo i helpu dysgwyr, ysgolion a lleoliadau i ddarparu'r cymorth gofynnol mewn modd amserol. Drwy ddarparu'r cymorth sydd ei angen cyn gynted â phosibl, gyda staff â'r hyfforddiant a'r profiad priodol, byddwn yn darparu'r cyfle gorau i'n dysgwyr deimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi fel eu bod ddim yn colli diddordeb nac yn mynd yn anniddig.

Bydd y cynnig dysgu yn darparu'r canlynol i'r holl ddisgyblion:

- Diwylliant adferol, ymwybodol o drawma, lle bydd yr holl anghenion llesiant, cymdeithasol a dysgu yn cael eu diwallu.

- Cyfuniad pwrpasol o ddysgu yn yr ystafell ddosbarth, yn yr awyr agored ac yn y gymuned, gan ddatblygu sgiliau, diddordebau a thalentau a fydd yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywyd hapus a llawn.

- Ystod eang o brofiadau dysgu, gan arwain at achrediad gwerthfawr yn CA3 a CA4 i gynnwys y canlynol:
 - Adeiladu
 - Antur Awyr Agored
 - Rheoli Cefn Gwlad
 - Gofal Anifeiliaid Bach
 - Chwaraeon
 - Cyfryngau Digidol
 - Coginio
 - Garddio
 - Gwallt a Harddwch
 - Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Dug Caeredin
 - Ymddiriedolaeth y Tywysog

- Cyfleoedd i weithio ochr yn ochr ag ystod eang o weithwyr proffesiynol:
 - Dr MZ
 - Yr Ardd Fotaneg
 - Tir Coed

- Llandysul Paddlers
- Area 43
- Profiad gwaith a chyfleoedd cymunedol

Bydd profiadau cyfnod allweddol 2 yn cynnwys cynnig cwricwlwm eang a chytbwys gyda mynediad i gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, ynghyd â chymorth llesiant gan gynnwys ymarfer a lywir gan drawma a dulliau adferol a pherthynas agos â'n partneriaethau amlasiantaethol, i'n galluogi i gael y gwasanaethau sydd eu hangen cyn gynted â phosibl a darparu cynlluniau cyfannol cadarn ar gyfer ein dysgwyr.

Yn ogystal, bydd y disgyblion hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth yn cael mynediad at:

- Model Adfer Trawma, sy'n arwain at becyn pwrpasol wedi'i seilio ar anghenion ac sy'n benodol i'w hanghenion unigol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r model Haen 3 presennol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion presennol.

Bydd yr amgylchedd Dysgu yn cynnwys:

- Ardaloedd dan do ac awyr agored i chwarae a dysgu ynddynt.
- Cyfleusterau preswyl sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn ddeniadol

Bydd y Model Pedwar Cam yn cefnogi ein gweledigaeth drwy sicrhau:

- Cydweithio rhwng yr holl staff ar draws y model Pedwar Cam, rhannu arferion effeithiol, darparu profiadau dysgu yn unol â'u meysydd arbenigedd.
- Hyblygrwydd o ran defnyddio staff ar draws Unedau Cyfeirio Disgyblion, gan sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu.
- Mynediad hyblyg i ddarpariaeth ar draws lleoliadau prif ffrwd ac UCD
- Llywodraethu cadarn gan bwyllgor rheoli canolog.
- Defnydd effeithlon o adnoddau oherwydd arbedion maint.

9. Tudalen 13 - Effaith ar Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai ychwanegu UCD at safle presennol Rhyd-y-gors yn darparu ar gyfer yr ystod amrywiol o ddisgyblion o bob oedran sydd ag ACEY. Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd gan fod Ysgol Rhyd-y-gors yn rhannu ei safle gydag un o'r tri UCD sydd eisoes wedi'u sefydlu. Felly, nid yw'n glir sut y byddai cau'r ysgol arbennig ac agor UCD ychwanegol yn darparu darpariaeth gyffredinol wahanol a gwell ar gyfer disgyblion ag ACEY ar draws yr awdurdod lleol.

Ymateb yr ALI

Sylwer manteision y model Pedwar Cam a amlinellir ym mhwynt 1 (tudalen 27) y ddogfen hon.

Hefyd, noder:

- Mae'r ddarpariaeth yn yr UCD yng Nghaerfyrddin ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a CA2 yn unig; bydd ymestyn y ddarpariaeth hon i CA3 a CA4 hefyd drwy ddefnyddio safle ac adnoddau Rhyd-y-gors yn sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran natur y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael i ddisgyblion.
- Dim ond gyda datganiad y gellir cael mynediad i'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Rhyd-y-gors.
- Fel Uned Cyfeirio Disgyblion, bydd angen Cynllun Datblygu Unigol ar y dysgwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon gan sicrhau mwy o hyblygrwydd i weithio rhwng y brif ffrwd a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i'r dysgwyr hynny yng Ngogledd-orllewin y sir nad oes mynediad ganddynt i'r ddarpariaeth hon oherwydd amseroedd teithio. Bydd gweithwyr allgymorth o'r UCD yn gallu mynd â'r ddarpariaeth hon i'r disgyblion.

10. Tudalen 14 - Trefniadau derbyn

Mae'r cynnig yn nodi 'bod rhai disgyblion sy'n cyflwyno heriau sylweddol a pharhaus sy'n gysylltiedig â'u hanawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac sydd angen darpariaeth ACEY hirdymor neu breswyl arbenigol yn Ysgol Rhyd-y-gors'. Nid yw'n glir ble a sut y bydd anghenion y disgyblion hyn yn cael eu diwallu o dan y cynnig presennol i gau'r ysgol.

Mae'r cynnig yn nodi 'Bydd peidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors a chreu UCD i ddarparu ar gyfer anghenion ystod amrywiol o ddisgyblion o bob oed a chyfnod datblygu ar un safle yn sicrhau dull cyson o ymdrin â'r strategaethau addysgu perthnasol ar draws pob cyfnod allweddol, gan gynnwys y cyfnod sylfaen'. Prin yw'r dystiolaeth yn yr ymgynghoriad presennol i gefnogi'r datganiad hwn. Nid yw'r cynnig yn darparu digon o dystiolaeth i egluro pam nad yw'r ysgol arbennig yn cael ei hystyried yn rhan o gontinwmm ymddygiadol y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ACEY.

Ymateb yr ALI

Noder yr ymatebion blaenorol.

Sut bydd anghenion y disgyblion hyn yn cael eu diwallu o dan y model Pedwar Cam arfaethedig, gan gynnwys yr UCD a fydd yn cymryd lle Ysgol Rhyd-y-gors?

- Mae'r Model Pedwar Cam yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad i greu ethos cynhwysol cyson ar draws ysgolion prif ffrwd gan ddefnyddio dulliau adferol a chreu proses i gael mynediad ar unwaith i'r tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad, gan greu model ymyrraeth llawer cynharach.
- Dylai ymyrraeth gynharach a model sy'n creu capasiti yn yr ysgol leihau'r cynnydd mewn ACEY a lleihau ceisiadau cymhleth am leoedd tymor hir
- Pan fydd disgybl yn cael ei roi mewn UCD, caiff ei anghenion eu monitro a'u hadolygu'n barhaus, sy'n golygu bod mwy o gyfle i ailintreiddio i'r brif ffrwd yn llawn neu'n rhan-amser gyda phegyn cymorth priodol.

Sut bydd y model Pedwar Cam a chreu UCD yn sicrhau dull cyson o ymdrin â strategaethau addysgu perthnasol ar draws pob cyfnod allweddol gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen?

- Mae'r model newydd yn gosod yr holl Unedau Cyfeirio Disgyblion dan un Pwyllgor Rheoli
- Mae gan y model strwythur arweinyddiaeth newydd lle mae rheolwr canolfan ar bob safle a thîm uwch-arweinwyr cyffredinol i ddatblygu tegwch a chysondeb ar draws y lleoliadau.

11. Tudalen 16 - Opsiynau Eraill a Ystyrir

*Wrth ddatblygu opsiwn a ffefrir, mae'r cynnig yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau eraill. Sylwadau ychwanegol gan Estyn mewn **print trwm**.*

Ymateb yr ALI

OPSIWN	DISGRIFIAD	MANYLDER	YMATEB ESTYN
1	Y SEFYLLFA BRESENNOL	Nid yw'n ymdrin â'r amrywiad yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin.	- nid yw'n glir o'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad beth yw'r 'amrywiad' yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Ymateb i ymholiad Opsiwn 1: Fel rhan o'r Model Pedwar Cam, datblygir ansawdd y ddarpariaeth, arbenigedd cyson staff, ac un strwythur llywodraethu gyda rhaglen hyfforddi wedi'i chynllunio. Mae'r amrywiad yn y lefelau staffio a'r gyllideb rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r ysgol yn sylweddol, ond nid yw'r deilliannau o'r ysgol yn adlewyrchu hyn.

OPSIWN	DISGRIFIAD	MANYLDER	YMATEB ESTYN
2	Peidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd bresennol Sir Gaerfyrddin	Dim digon o gapasiti yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Rhyd-y-gors	- beth am ddisgyblion cynradd yr ysgol? Faint o ddisgyblion y rhagwelir y bydd angen y ddarpariaeth hon arnynt, ac a fyddent yn peri bod angen sefydlu pedwaredd UCD?

Ymateb i ymholiad opsiwn 2. Yn y gorffennol, mae dau ddosbarth wastad wedi bod (12-14 o ddisgyblion oedran cynradd). Ar hyn o bryd, nid oes bwriad cynyddu capasiti o ran y disgyblion cynradd sy'n cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol. Rydym yn cynyddu gallu'r Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad i allu rhoi cymorth i fwy o ddysgwyr yn y brif ffrwd. Os oes mwy o alw yn y dyfodol, ymdrinnir â hyn ond nid yw'n rhan o'r cynllun presennol.

OPSIWN	DISGRIFIAD	MANYLDER	YMATEB ESTYN
--------	------------	----------	--------------

3	Peidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.	Bydd angen cymorth arbenigol ar ysgolion na ellir ei ddarparu yn y brif ffrwd.	ar sail datganiadau'r disgyblion, nid yw'n ymddangos bod hwn yn opsiwn ymarferol.
---	--	--	--

OPSIWN	DISGRIFIAD	MANYLDER	YMATEB ESTYN
4 (yr hyn a ffeirir)	Peidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion mewn Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ar safle Ysgol Rhyd-y-gors.	Creu cysondeb o ran ansawdd a safon y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion ag ACEY yn Sir Gaerfyrddin a chyfyngu ar y tarfu sydd ar ddisgyblion.	– efallai y gellid datblygu cysondeb yn ansawdd a safon y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Rhyd-y-gors

Ymateb i ymholiad Opsiwn 4: Cyfeiriwch at y wybodaeth yn y ddogfen ynghylch materion yn ymwneud â sicrhau arweinyddiaeth a pharhad yn yr ysgol, a'r angen i'r Awdurdod Lleol benodi arweinydd dros dro ar secondiad yn yr ysgol.

OPSIWN	DISGRIFIAD	MANYLDER	YMATEB ESTYN
5	Peidio â chynnal Ysgol Rhyd-y-gors a darparu dim darpariaeth amgen.	Nid yw'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin.	Ni wnaed unrhyw sylwadau gan ESTYN.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc

Darparwyd fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori i'r ysgol i'w dosbarthu i bob disgybl.

Digwyddiad Ymgynghori â Disgyblion

Rhodddwyd cyfle i'r disgyblion gyfarfod â'r Ymgynghorydd Cymorth Addysg i rannu eu sylwadau ar y cynnig ar 11 Chwefror 2021. Fodd bynnag, prin oedd y diddordeb mewn trafod. Er gwaethaf hyn, casglwyd sylwadau'r disgyblion a chrynoir yr adborth isod.

Yn ystod wythnos 8-12 Chwefror 2021, trefnwyd cyfarfod gydag ystod o ddisgyblion gan staff yr ysgol i ymgynghori ar y broses o newid. Ar yr 17eg trefnwyd bod yr Ymgynghorydd Cymorth Addysg yn siarad â grŵp dethol o ddisgyblion ar ganfyddiadau'r grŵp cyfan. Fodd bynnag, roedd 3 o'r 4 disgybl yn absennol y diwrnod hwnnw a bu i'r 1 disgybl oedd yn barod i roi adborth i'r Ymgynghorydd Cymorth Addysg wrthod gwneud ar y funud olaf.

Ymgysylltodd yr Ymgynghorydd Cymorth Addysg â'r pennaeth dros dro i drafod canlyniadau'r drafodaeth, a nodir isod.

*Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i bob disgybl a bu i 19 o ddisgyblion fod yn rhan o'r drafodaeth.

1. Ydych chi'n gwybod y gallai fod newidiadau i'ch ysgol?

5-Ydw	14-Nac ydw
-------	------------

2. A oes unrhyw beth rydych yn edrych ymlaen ato/yn bryderus amdano?

Edrych ymlaen	Pryderus
Fel rhan o edrych ymlaen gofynnwyd i ddisgyblion rannu eu meddyliau cadarnhaol. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Dim byd• Ddim yn gwybod• Mwy o amser oddi ar y safle• Yr ysgol yn cau• Gadael ysgol	Mae gan y disgyblion sy'n defnyddio'r lleoliad hwn amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Yr ymatebion oedd: <ul style="list-style-type: none">• Ddim yn hoffi pobl/disgyblion newydd• Ddim yn hoffi bod oddi ar y safle• Rwy'n hoffi fy staff – a fyddant yr un peth – dydw i ddim yn hoffi staff newydd• A fydd e yr un peth?• Beth sy'n mynd i fod yn wahanol?

3. Beth hoffech chi ei gadw yr un peth?

Mae gan y lleoliad gymhareb staff i ddisgyblion uchel ar hyn o bryd ac mae gan bob disgybl fynediad at weithwyr allweddol maent yn ymddiried ynddynt. Eto roedd yr ymatebion yn amrywio.
--

- Staff – (enwyd rhai staff)
- Dosbarthiadau bach
- Triplau ysgol
- Dim byd

4. Sut hoffech chi fod yn wahanol?

Ychydig yw'r profiadau cadarnhaol a gaiff y disgyblion, ac yn aml maent wedi colli allan ar ddysgu seiliedig ar chwarae o ddechrau bywyd. Mae lefelau canolbwyntio ar gyfer dysgu ffurfiol yn aml yn cael eu hategu gan anghenion llesiant sylweddol. Mae'r disgyblion yn ei chael hi'n anodd bod yn rhan o sefyllfaoedd ffurfiol, fel y broses ymgynghori. Rhoddodd y staff sylw i'r cwestiwn hwn eto gyda'r disgyblion:

- Mwy o chwarae a chyfleoedd i weithio mewn ffordd strwythuredig yn yr awyr agored.
- Mwy o bethau ymarferol i'w gwneud ar ac oddi ar y safle, mwy o gelf, a chrefft
- Mwy o weithgarwch ymarferol oddi ar y safle i gael mwy o brofiadau tebyg i waith
- Ystod ehangach o gyfleoedd ymarferol: Ffotograffiaeth, gwaith coed, gofal anifeiliaid ar y safle ac oddi arno
- Staff sy'n fwy neis
- Symud o gwmpas a mynd i ddosbarthiadau gwahanol fel ysgol 'go iawn'

Ychwanegodd ambell ddisgybl o flynyddoedd 10 ac 11:

- Ystafell y Chweched
- Aros yn yr ysgol yn hytrach na mynd i'r coleg

Cyflwynodd SNAP Cymru adborth hefyd mewn perthynas ag ymgynghori â'r disgyblion, a wnaeth roi'r un canlyniadau.

Opsiynau Eraill

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, rhoddwyd cyfle i randdeiliaid gyflwyno opsiynau eraill i'w hystyried. Nodir isod yr opsiynau eraill (nad ydynt eisoes wedi'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori) sydd wedi dod i law a chânt eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

Symud y ddarpariaeth UCD newydd i safle newydd	
Manteision	Anfanteision
Lleoliad mwy priodol	Tarfu ar ddisgyblion a staff
Cyfle i ail-frandio'r lleoliad	Angen cyfalaf sylweddol
	Angen safle priodol
	Prynu tir

Uno'r holl Unedau Cyfeirio Disgyblion gyda buddsoddiad o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif	
Manteision	Anfanteision
Byddai'n darparu cyfleusterau addas i'r 21ain ganrif i'r disgyblion	Byddai angen ad-drefnu ar raddfa fawr
Mwy o gysondeb o ran mynediad i arbenigwyr pwnc	Cyllid yn dibynnu ar gymeradwyo achos busnes
Arbedion maint	Tarfu ar staff a disgyblion sy'n mynychu'r Unedau Cyfeirio Disgyblion

Cadw Ysgol Rhyd-y-gors a sefydlu UCD ar wahân.	
Manteision	Anfanteision
Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau	Byddai angen cyllid cyfalaf a referniw ychwanegol
Lleihau'r tarfu sydd ar staff a disgyblion presennol	Angen rhagor o dir
Creu cyfleoedd gwaith ychwanegol	Nid yw'r lleoliad parhaol presennol yn adlewyrchu dyhead cynhwysol y Model Pedwar Cam
	Yn y gorffennol, nid yw pobl ifanc sy'n gadael Ysgol Rhyd-y-gors wedi cwblhau cymwysterau ôl-16 yn llwyddiannus

Cynnal Ysgol Rhyd-y-gors a darparu arweinyddiaeth barhaol addas.	
Manteision	Anfanteision
Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau	Mae cyflogi a chadw arweinwyr addas a llwyddiannus ar gyfer Ysgol Rhyd-y-gors yn dal i fod yn her
Lleihau'r tarfu sydd ar staff a disgyblion presennol	Anhawster adnabod a chynnal Corff Llywodraethu profiadol

	Nid yw'r lleoliad parhaol presennol yn adlewyrchu dyhead cynhwysol y Model Pedwar Cam
	Yn y gorffennol, nid yw pobl ifanc sy'n gadael Ysgol Rhyd-y-gors wedi cwblhau cymwysterau ôl-16 yn llwyddiannus

Oedi'r cynnig nes bod model Pedwar Cam y gwasanaethau ymddygiad wedi'i wreiddio a hyd nes bod tystiolaeth i gefnogi lleihad yn yr angen am ddarpariaeth arbenigol Ysgol Rhyd-y-gors	
Manteision	Anfanteision
	Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn llawn ond mae niferoedd Ysgol Rhyd-y-gors yn gostwng.
	Potensial i ddigalonni staff drwy ymestyn yr ansicrwydd sy'n perthyn i ddyfodol yr ysgol
	Does dim modd cynnal arweinyddiaeth frys dros dro

Atodiad A

Amlinelliad o'r Model Pedwar Cam



carmarthenshire.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



CAM 1: YSGOLION PRIF FFRWD

Rydym yn hyrwyddo bod pob ysgol yn datblygu ethos adferol ac wedi darparu cyfleoedd hyfforddi i bob ysgol. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn prosiect peilot sy'n hyfforddi clystyrau o ysgolion i gyd-hyfforddi gyda'i gilydd i weithredu ac ymgorffori dulliau adferol yn eu hysgolion. Yn ogystal, rydym wedi prynu pecynnau cymorth llythrennedd emosiynol ar gyfer pob ysgol yn yr awdurdod lleol i alluogi ysgolion i gael ymagwedd gyson o ran nodi'n gynnar feisydd penodol o lythrennedd emosiynol i ddysgwyr, ac rydym wedi cefnogi hyn ymhellach gyda hyfforddiant a chymorth gan y Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad. Rydym hefyd wedi ariannu hyfforddiant i bob ysgol gael Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol, ac mae hyn yn darparu model goruchwyllo a ddarperir gan y Seicolegwyr Addysg a Phlant ar gyfer y Cynorthwywyr hyn. Rydym hefyd wedi ariannu hyfforddiant ar gyfer gorbryder, cymorth cyntaf iechyd meddwl, cydnerthedd ac ymwybyddiaeth ofalgar. Rydym hefyd wedi prynu Pecyn Cymorth Llesiant ar gyfer Pobl Ifanc yn eu Harddegau i bob ysgol uwchradd yn yr Awdurdod Lleol ac wedi darparu hyfforddiant a chyflwyniad i'r pecyn cymorth hwn gan Tina Rae.

Mae gennym nifer o gynlluniau peilot a chyfleoedd hyfforddi pellach ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22.

Yn y bôn, mae Cam 1 yn uwchsgilio ac yn cefnogi ysgolion i ddatblygu a chynnal gweithlu hyderus a chymwys i ddarparu cymorth llesiant emosiynol i ddysgwyr.

CAM 2 – TÎM CYMUNEDOL CYMORTH YMDDYGIAD

Y cynllun yn y tymor canol i'r tymor hir yw darparu hyfforddiant ar draws ysgolion fel bod set sgiliau gynyddol i ddatblygu systemau er mwyn gweithio gyda disgyblion drwy ymyrraeth llawer cynt, cael Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad mwy o faint i ddarparu cymorth, hyfforddiant ac arweiniad i'w hysgolion clwstwr cyswllt, cefnogi ysgolion a dysgwyr yn dilyn gwaharddiadau, cefnogi ymyriadau a pheynnau cymorth cadarn gan gynnwys cefnogi symud i leoliadau newydd. Mae'r athrawon yn y tîm wedi cwblhau'r diploma Ymarfer a lywir gan Drawma yn ddiweddar. Rydym yn bwriadu cyflogi cynorthwywyr addysgu L3 i gefnogi'r tîm a fydd i gyd yn cael eu hyfforddi gan Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol a byddwn yn cefnogi cynorthwywyr addysgu a staff eraill i ddatblygu strategaethau a chynlluniau i gefnogi disgyblion yn yr ysgol a/neu drwy gyfnodau pontio.

Bydd y tîm yn gallu darparu cymorth ar gyfer pecynnau pwrpasol o gynlluniau addysg a llesiant i ddisgyblion sy'n dangos rhai ymddygiadau afreolus a heriol. Yn ogystal, byddant yn gweithio mewn model integredig gyda Thimau o Amgylch y Teulu a fydd yn gallu cefnogi teuluoedd y gallai fod angen cymorth arnynt. Bydd defnyddio timau a fydd yn darparu dull adferol cyson yn yr ysgol a'r tu allan iddi yn galluogi'r plentyn i gael neges gyson o gefnogaeth.

Yng Ngham 2 bydd pecyn cymorth mwy cadarn yn cael ei ddarparu yn yr ysgol, a'i fonitro a'i werthuso gan ddefnyddio TAPPAS (Timau sy'n ymwneud â disgyblion, rhieni ac ysgolion). Bydd yr aelod o'r tîm yn gallu darparu tystiolaeth a throsolwg o'r cymorth i ychwanegu at unrhyw sgwrs a chyd-lunio cynlluniau yn y dyfodol am gymorth yn y tymor hwy. Byddai'r aelod o'r tîm hefyd yn cefnogi'r dysgwr wrth symud i UCD (Cam 3) pe bai hyn yn cael ei gytuno, ac yn rhoi cefnogaeth wrth drosglwyddo'n ôl i'r ysgol pan wnaed cynnydd.

CAM 3 – LLEOLIADAU ARBENIGOL

Bydd gan ddysgwyr sy'n mynychu'r lleoliadau hyn fynediad i gwricwlwm eang a chytbwys sy'n cael ei gyflwyno gan staff a lywir gan drawma. Bydd ganddynt fynediad at becynnau cymorth pwrpasol wedi'u llunio ar y cyd rhyngon nhw a gweithwyr proffesiynol eraill a fydd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n agos, a dethlir yr holl gynnydd. Bydd y Lleoliadau Arbenigol yn defnyddio model adfer trawma ar gyfer ein dysgwyr afreolus, a'n blaenoriaeth yw sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u gwerthfawrogi fel y gallant ddechrau ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn effeithiol yn eu llwybrau dysgu.

Bydd dyhead bob amser i ddychwelyd dysgwyr i leoliad prif ffrwd a bydd unrhyw gynllun bob amser yn canolbwyntio ar gynnydd ac anghenion yr unigolion a gweithio tuag at eu deilliannau gorau posibl.

CAM 4 – LLEOLIADAU TYMOR HIR A LLWYBRAU ÔL-16

Mae Cam 4 y model yn gweithio gyda dysgwyr a'u teuluoedd sydd â phroblemau a deinameg gymhleth a bydd angen mewnbwn tymor hir gan wasanaethau cymorth amlasiantaethol. Byddwn yn gweithio gyda dysgwyr sydd angen gwaith a lywir gan drawma gyda'u teuluoedd ac y bydd angen cymorth arnynt i gymryd rhan mewn llwybrau ôl-16, y byddwn yn eu datblygu yn unol â'u gallu i ymgysylltu a'u dyheadau galwedigaethol.

Atodiad B

Model Pedwar Cam o'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad



carmarthenshire.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Model Pedwar Cam o'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad

